# ECO'r Wyddfa

Rhif: 425
Hydref 2014
Pris:60c

# Yr Helfa



Yn ystod y mis a aeth heibio cafodd Band Deiniolen y fraint o gymryd rhan mewn cynhyrchiad anarferol iawn. Irfon Morris, Cadeirydd y Band sy'n adrodd yr hanes….

"Wel wir, da chi di bod yn lwcus efo'r tywydd" oedd y geiriau oedd ar wefus pawb fu'n gweld neu ymwneud â'r cynhyrchiad. Yn sicr, bu'n fis Medi bendigedig i bawb o ran y tywydd ac yn Fedi cynhyrchiol ac bythgofiadwy i Fand Deiniolen.

Cynhyrchiad awyr agored ar lethrau' ochr draw y Wyddfa i ni oedd 'The Gathering'. Gan mai'r National Theatre of Wales dan gyfarwyddyd Louise Ann Wilson (sy'n wreiddiol o Swydd Efrog) oedd y cwmni oedd yn cyflwyno'r sioe, Saesneg oedd prif gyfrwng y cyflwyniad. Roedd yn rhyfeddol deall mai cyflwyniad ar gylch bywyd defaid mynydd ar lethrau'r Wyddfa oedd ffocws popeth. Ond sut oedd band Deiniolen yno?

Tua mis Mawrth diwethaf, daeth cais gan swyddog o'r NTW i'n cyfarfod fel band i drafod a oedd gennym ddiddordeb cymeryd rhan a'i pheidio. I unrhyw un sy'n gyfarwydd â thywydd anwadal Eryri, roedd maint a sialens cario offerynnau trwm i fyny i Gwm Llan (sy'n awr dda o gerdded i fyny llwybr Watkin o Nant Gwynant) a sicrhau fod pobl ar gael yn ystod dyddiau gwaith ac ysgol, yn dipyn o her. Ond, ymateb yn bositif wnaeth pawb a derbyn y sialens.

*Mwy ar dudalen 23*



**ECO'r *Wyddfa***

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | Hydref 19 | Hydref 31 | Llanberis |
| Rhagfyr | Tachwedd 16 | Tachwedd 28 | Caeathro |
| Nadolig/Ionawr | Rhagfyr 7 | Rhagfyr 19 | Ysgol Brynrefail |

**RHIF 425**
**Hydref 2014**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673

## LLYTHYRAU

### Yn ystod y mis a aeth heibio.....

Closiodd cymunedau'r fro at ei gilydd yn sgil damwain ddifrifol Gwion Williams o Fethel, a hynny i godi arian tuag at gronfa i gynorthwyo'r teulu gyda'r costau o deithio i Ysbyty Stoke. Cynhaliwyd gêm beldroed yn Llanberis, casgliad yng nghapeli'r fro a gig yn Y Bedol. Daeth gwir ystyr cymydog i'r amlwg yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn

Pleidleisiodd dros filiwn a hanner o Albanwyr o blaid gadael y Deyrnas Unedig. Ac er mai aros yn rhan o'r deyrnas honno oedd canlyniad y refferendwm, teg gofyn pa mor unedig fydd hi byth eto. A thrigolion Glasgow yn ddigon hyderus i fentro ar eu liwt eu hunain. Meddyliwch am bleidlais debyg yng Nghaerdydd – a gweddill Cymru'n gwrthod! Sgersli bilif, chwedl Ifans y Tryc gynt.

Daeth rhyw aflwydd cas i effeithio ar ddisgyblion Ysgol Brynrefail, a degau o blant a phobl ifanc yn cael eu taro'n wael. Tybir mai feirws o ryw fath fu'n gyfrifol am y salwch, a does ond gobeithio y bydd pawb yn holliach erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg.

Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu bod am ymgynghori efo'r cyhoedd er mwyn cael syniadau ar sut i dorri i lawr ar gostau er mwyn arbed arian. Doedd eu hamseriad ddim mor glyfar a hynny, oherwydd daeth eu taflen 'Newyddion' drwy ddrws pob tŷ yn rhestru'r 'costau/cyflog' a delir i'r holl gynghorwyr. Gydag aelodau Cabinet a Chadeiryddion pwyllgorau yn hawlio bron i ddeng mil ar hugain o bunnau y flwyddyn (llawer mwy na chyfartaledd cyflog cynhaliwyr teulu yn y sir), roedd un syniad yn sicr o apelio i lawer o'r darllenwyr.

---

Annwyl Ddarllenwyr Eco'r Wyddfa,

Fel y gwyddoch mae Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yn cynnal rhaglen ddifyr a safonol o ddarlithiau. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd i gyflwyno gweddau o hanes Cymru. Dewch atom ! Dyma ychydig o wybodaeth am y digwyddiad nesaf:

### Ein Gwir Hanes 4: OWAIN GWYNEDD 1137-1170

Un o gewri ein cenedl yw'r Tywysog Owain Gwynedd. Beth wyddoch chi amdano, tybed? Pam y dylem ni ei gofio ac ymfalchïo yn ei gyflawniadau?

Dewch i Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, i wrando ar siaradwyr hyddysg yn y maes yn traethu'n frwd ar yrfa Owain Gwynedd a'i amserau. Gosodir y cyd-destun hanesyddol gan Dawi Griffiths, ac wedyn ceir darlith ar ddulliau rhyfela yn y ddeuddegfed ganrif gan Howard Huws. Tasg Ieuan Wyn fydd cloriannu hanesyddiaeth a phwysigrwydd Owain Gwynedd i'n cenedl.

Mynnwch wybod ein hanes, gwir hanes Cymru. Yr hanes nas cawsoch yn yr ysgol.

**Dydd Sadwrn Hydref 18fed 2014, 10.30-2.30**

Darperir paned.
Am ragor o fanylion cysylltwch â ni ar 01286 660 546/853
canolfanuwchgwyrfai@gmail.com
Croeso cynnes i bawb

Gobeithiwn y cawn eich cwmpeini.
*Yn gywir, Jina Gwyrfai*

**Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?**

**Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis**

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

| | | |
|---|---|---|
| Cost anfon drwy'r post am flwyddyn | - o fewn Prydain: | £13.50 |
| | - gwledydd Ewrop | £33.50 |
| | - gwledydd eraill | £42.50 |
| Cost anfon dros y we am flwyddyn | | £5.50 |

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839
neu olwenwaen@yahoo.co.uk

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£25: Olwen Williams, Llidiart wen, Waunfawr; Douglas Hughes Jones, Bwcle, er cof am ei frawd Reginald Kaityn Jones

£20: Jean, Sioned, Sion a Llion, Treflys, Penisarwaen; Er cof cariadus am Gwyn, 8 Tremeilian, Brynrefail, Dad, mam, Meilir, Delyth a'r hogia'; Mrs Eleanor Williams, Afallon, Rhes Rhythallt, Llanrug.

£10: Helen Owen, Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Teulu Mrs Megan Owen, 59 Maes Padarn, Llanberis; Jenkin Griffith, Llwyn Eithin, Bethel; Margaret Ellen, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen; Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen, Deiniolen; M. Lewis, 33 Hafod Oleu, Deiniolen; Er cof am Mrs Betty Roberts, Rhydfadog gynt gan y teulu;

£5: Mrs Elizabeth Foster, 98 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Mona Parry, 13 Hafod Oleu, Deiniolen; Alan a Suzanne (Penygroes), Bryn Menai, Waunfawr gynt; Mair Davies, Ael y Glyn, Llanberis.

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

### CYFARFOD BLYNYDDOL YR "ECO".

**Y Mynydd Gwefru, Llanberis ar nos Lun, Hydref 13eg am 7.00.**

Yr un yw'r apêl ers blynyddoedd bellach!
Dowch yno i
- gwyno am gynnwys y papur
- ganmol
- gynnig cymorth
- ddatgan cefnogaeth

Dri diwrnod yn ddiweddarach bydd Gwefan yr "Eco" yn cael ei lansio, a bydd angen rhywrai â diddordeb yn y dechnoleg ddiweddaraf i gynnig syniadau ar sut i'w datblygu.

Cofiwch mai eich papur CHI ydi'r "Eco", ac mai dyma eich cyfle i 'ddweud eich dweud' ynglŷn â'ch papur bro.

## NOSON LANSIO GWEFAN YR 'ECO'

Neuadd Goffa Bethel
Nos Iau, 16eg o fis Hydref am 7.00.
Croeso cynnes i holl ddarllenwyr a chefnogwyr yr 'Eco', pryd y bydd gwefan newydd "Eco'r Wyddfa" yn cael ei lansio'n swyddogol.
Bydd y wefan yn 'fyw' o'r dyddiad hwn, yn cynnwys yr holl ôl-rifynnau, yr oll o'r lluniau a gyhoeddwyd yn yr 'Eco', a hefyd archif o hen luniau eraill o'r fro, gan gynnwys ffilmiau fideo o'r gorffennol.

# Cynllun Trydan-Dwr gam yn nes…



ECO'r Wyddfa

Rhif: 401
Gorffennaf/Awst 2012
Pris: 50c

## Cynllun Trydan-Dŵr arall i'r Ardal?

**Mae cwmni rhyngwladol o'r enw Quarry Battery gyda chynlluniau i ddatblygu hen chwareli llechi ar lethrau'r Cefn Du gyda'r bwriad o greu trydan gan ddefnyddio'r un dechnoleg ac a ddefnyddir dan grombil yr Elidir a hen Chwarel Dinorwig.**

Y bwriad yw defnyddio twll chwarel y Chwarel Fawr ger copa Cefn Du fel y gronfa uchaf, ac yna bibellu'r dwr yn dan-ddaearol i lawr y llethrau i dwll chwarel Glyn Rhonwy islaw. Mae cynlluniau manwl ac astudiaethau amgylcheddol, archaeolegol a hanesyddol eisoes wedi eu paratoi. Mae'r cwmni hefyd wedi ymgynghori â gwahanol asiantaethau ac adran economaidd Cyngor Gwynedd. Eu bwriad maes o law yw cysylltu â chynghorau cymuned yr ardal i egluro'r cynlluniau. Gall y datblygiad effeithio ar drigolion Y Waunfawr oherwydd yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai cryn ddefnydd ar y ffordd o Groeslon y Waun i fyny i gyfeiriad Bwlch y Groes.

Ddiwedd y mis hwn bydd cyfle i gael golwg fanylach ar y datblygiad arfaethedig pan gynhelir dyddiau agored yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Bydd swyddogion o'r cwmni ar gael i ateb unrhyw ymholiadau ar ddydd Gwener, Mehefin 29ain rhwng 10 o'r gloch y bore a 4.30 y pnawn, ac wedyn ar y dydd Sadwrn. Mehefin 30ain rhwng 10 o'r gloch y bore a hanner awr wedi saith y nos. Gallwch hefyd astudio'r holl gynllun a'r adroddiadau manwl ar safle'r cwmni: www.quarrybattery.com

*Golygfa o Gefn Du tua Llyn Padarn a gwaelod chwarel Glyn Rhonwy. Yma y gosodir y pibellau dwr tanddaearol.*

*Y twll chwarel ger copa Cefn Du – y gronfa uchaf arfaethedig.*

Dros ddwy flynedd yn ôl rhoddodd yr "Eco" sylw i fwriad cwmni Quarry Battery i greu cynllun cynhyrchu trydan gan ddefnyddio hen dwll chwarel ar fynydd Cefn Du a thwll chwarel arall yng Nglyn Rhonwy. Y bwriad oedd creu fersiwn llai o Gynllun Dinorwig. Cafwyd caniatad cynllunio yn 2013. Y datblygwr ar eu rhan yw Snowdonia Pumped Hydro. Mae'r cwmni bellach wedi llwyddo i godi dros £3 miliwn mewn arian buddsoddi, ac yn eu galluogi i wneud gwaith rhag-baratoi cyn cynnal trafodaethau am y gwaith adeiladu gyda chwmni o adeiladwyr. Mae'r cwmni hefyd wedi cael ar ddeall eu bod â'r hawl i wneud cais am gytundeb 15 mlynedd yn ôl Cynllun Marchnata Trydan y Llywodraeth.
Amcangyfrifir y bydd yr holl waith yn costio £100 miliwn ac yn cymryd tair mlynedd i'w gwblhau. Y gobaith yw dechrau cynhyrchu trydan yn 2018. Dros gyfnod y tair blynedd, mae'r cwmni yn honni y bydd yn creu gwaith i tua 300 o bobl, gyda 30 o swyddi parhaol i ddilyn.

Yn sicr, mae cynllun sy'n creu gwaith, a hwnnw'n un cynnaladwy, yn un i'w groesawu. Ond fel gyda phob datblygiad newydd mae pryderon, ac nid y lleiaf o'r rheini fydd y drafnidiaeth drom a fydd o reidrwydd yn defnyddio'r lôn gul o Groeslon Waunfawr i fyny am Gefn Du.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau  Gwaith MOT  Mecanic profiadol iawn  Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362  07979620996

# Codi arian at achosion da.




Yn ystod yr haf bu Malcolm Pitts o Lanrug yn brysur yn codi arian at ddau achos sy'n agos iawn i'w galon. Collodd Malcolm ei wraig, Yvonne wyth mlynedd yn ol er iddi frwydro'n ddewr i geisio goresgyn cancr. Byth ers hynny, mae Malcolm wedi cynnal taith feicio a nofio noddedig er cof amdani, a'r elw'n cael ei drosglwyddo i elusennau lleol.

Eleni bu'n nofio milltir a hanner ym Mhlas Menai chwech o weithiau, a dilyn hynny gyda thaith feics 50 milltir o Blas Menai i Ddeganwy ac yn ol gyda'i ffrind Darren Brame. Roedd cyfanswm yr arian a gasglwyd yn £1500, a phenderfynwyd ei rannu rhwng Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd (lle derbyniodd Yvonne ei thriniaeth a'i gofal) a Chartref Preswyl Gwynfa ger Bontnewydd, sy'n gofalu am unigolion yn dioddef o dementia. Mae'r ddau achos yn agos at galon Malcolm, a throsglwyddwyd mil o bunnau i Ward Alaw a £500 i Gartref Dwynfa.

Dymuna Malcolm a'r teulu ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at ei ymdrech eleni eto, yn deulu, ffrindiau ac aelodau o'r gymuned. Mae'r cyfan wedi ei wneud gan bobl sydd wedi ymrwymo i helpu eraill.










Robin Llwyd Jones, Rhyd Alaw, 2 Tan y Bryn, yn derbyn ei radd o goleg LIPA (Liverpool Institute for Performing Arts) gan Syr Paul McCartney. Llongyfarchiadau mawr, Robin. Mae Robin wedi bod yn chwarae'r drymiau i nifer o fandiau lleol dros y blynyddoedd yn amrywio o Bandana i Fand Deiniolen. Dymuniadau gorau iddo yn ei yrfa yn y byd cerddoriaeth.

**Clwb Bro Bethel** Daeth nifer go dda o aelodau ynghyd i gyfarfod cyntaf o'r Clwb o dan lywyddiaeth y Parchedig Marcus Wyn Robinson ac, wrth groesawu pawb, anfonwyd cofion at deulu Llain yr Ardd, gan ddymuno'r gorau i Gwion yn dilyn y ddamwain yn ddiweddar. Hysbyswyd yr aelodau am ohebiaeth o Swyddfa Age Cymru yng Nghaernarfon a phenderfynwyd fynd ati i gasglu talebau WISH y Daily Post eto eleni. Dr. J. Elwyn Hughes oedd y siaradwr a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar y testun 'Rhamant Iaith'. Bu'n sgwrsio yn ddifyr iawn ar enwau lleoedd yn Nyffryn Ogwen oedd yn cynnwys enwau anifeiliaid, lliwiau, enwau personol ac o'r iaith Ladin. Cafwyd enghreifftiau o eiriau benthyg o ieithoedd eraill, sef yr Almaen, Ffrainc, yr Iseldiroedd, ac hefyd rhai o berlau'r iaith Gymraeg. Wrth dalu gair o ddiolch i'r siaradwr soniodd Geraint Elis pa mor bwysig oedd cadw hen enwau a geiriau yn fyw i'r genhedlaeth nesaf. Diolch i Margaret Williams ac Eirlys Sharpe am y banad.

Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni y Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy, a hynny ar bnawn Mawrth, Hydref 7fed. yn Festri Bethel am 2.00.

**Dymuna** Jenkin Griffiths, Llwyn Eithin ddiolch i'w gyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd a estynnwyd iddo tra yn yr Ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl cyrraedd adref.

**Diolch** Dymuna Beryl Parry, Hafod Elen, ddiolch i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar. Diolch i bawb.

**Gwasanaethau Capel Cysegr Mis Hydref**

| | |
|---|---|
| Hyd 5ed: | Parch W.R. Williams |
| Hyd 12fed: | Parch Marcus W. Robinson |
| Hyd 19fed: | Gwasanaeth Diolchgarwch |
| Hyd 26ain: | Parch Marcus W. Robinson |

## Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher ,10fed o Fedi 2014. Bu i'r llywydd, Mair Price, groesawu pawb yn ôl wedi gwyliau'r haf. Heb feddwl am ddim ymhellach, mynegodd Mair ein dymuniadau gorau i Gwion, ŵyr Gwyneth a Ieuan Williams, sydd wedi cael damwain yn ddiweddar, yr oedd ein meddyliau gyda'r teulu i gyd ar amser anodd.

Diolchwyd i Rita am baratoi'r rhaglen mor drefnus ac i Jen a chwmni Delwedd am argraffiad glân. Roedd Gwyneth Jones – trysorydd y llynedd, wedi paratoi mantolen ariannol drylwyr, a archwiliwyd gan Seiriol Owen a rhoddwyd copi i bawb. Yn anffodus oherwydd trafferthion cael ffurflenni Cymraeg eleni bydd raid symud ein cyfrif o fanc Barclays i HSBC, a hynny wedi 40 mlynedd.

Diolchwyd i bawb oedd wedi cyfrannu, gwerthu a phrynu llyfrau ar gyfer ein stondin ar gae Gŵyl Bethel eleni. Gwnaethpwyd elw o £90.

Da oedd deall fod Jenkin M. Griffiths, gŵr Glenys adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, ac i Edwina Morris sy'n gwella wedi triniaeth i'w llygad. Dymunwyd yn dda i Nan Rowlands oedd yn cael clun newydd ac anfonwyd cofion at John Evans, gŵr Elisabeth.

Yr oedd pedair nain i'w llongyfarch - Anne Elis yn nain i Ynyr Morus, Margaret Druce yn nain i Llion Ywain, Alys Jones yn nain i Aled, a Gwyneth Jones, Bethesda yn nain i Owi. Llongyfarchwyd plant y pentref ar eu llwyddiant rhagorol yn yr arholiadau TGAU a lefel A.


Cyhoeddwyd mai ar 11eg o Hydref y cynhelir Eisteddfod Bentref Bethel eleni ac hefyd fod Te Cymreig yn y Neuadd Goffa bnawn Mercher Medi 25 o 2 - 4 o'r gloch, a'r elw at gronfa MacMillan. Talwyd diolch i aelodau'r gangen fu'n casglu at Sefydliad y Galon yn ddiweddar.


Pleser oedd croesawu gwesteion y noson, sef Sian Wheway, Dafydd Roberts a Math. Mae'r tri erbyn hyn yn adnabyddus i Gymru gyfan a mawr yw eu cyfraniad i'r byd cerddoriaeth werin ac offerynnol. Gallwn ymfalchïo mai hwn oedd y tro cyntaf i Math gynnal cyngerdd gyda'i rieni. Cawsom unawdau hyfryd gan Sian, hanes a pherfformiad hudolus ar y delyn deires gan Dafydd a pherfformiadau hynod feistrolgar gan Math ar y piano ac ar y delyn. Mawr oedd edmygedd pawb ohonynt.

Diolchwyd yn ddidwyll iddynt gan Mair Read, yr is-lywydd. Cyfranwyr y raffl oedd Anwylyd Jones, Mair Read a Mair Price, a'r enillwyr oedd Dilys, Jen ac Alys.

Yr oedd aelodau'r pwyllgor wedi paratoi lluniaeth flasus a bu i bawb fwynhau.


Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Fercher 8fed o Hydref yn Festri Cysegr am 7.30 o'r gloch pan ddaw aelodau o staff GISDA, Caernarfon atom i sôn am waith gwerthfawr y mudiad. Bydd cyfle eto yn y cyfarfod hwn i ymaelodi.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com


E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

# Cymdeithas Cymru-Ariannin




Elvey MacDonald Cymdeithas Cymru-Ariannin 1939-2014 Cymdeithas Cymru-Ariannin, 2014. 56t. £5

Eleni mae Cymdeithas Cymru-Ariannin yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed, ac i gyd-fynd â'r garreg filltir hon mae'r gymdeithas wedi cyhoeddi cyfrol arbennig sy'n bwrw golwg yn ôl dros dri chwarter canrif o'i gweithgarwch. Ceir yn Cymdeithas Cymru-Ariannin 1939-2014 ddetholiad o ysgrifau a gyhoeddwyd yn 1989 yn wreiddiol, yn ogystal ag ambell gyfraniad ychwanegol. Diddorol dros ben oedd darllen am brofiadau'r unigolion hyn o Gymru a'r Wladfa – Ivonne Owen, y Parchg Eirian Wyn Lewis, Cathrin Williams, Mari Emlyn ac Elvey MacDonald – a dysgais dipyn am hanes y gymdeithas ei hun hefyd, megis y ffaith mai ei henw gwreiddiol oedd 'Cymdeithas Cymry Ariannin'. Ond buaswn wedi gwerthfawrogi pennod agoriadol i'r gyfrol ar hanes y gymdeithas er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hanesion personol hyn, a theimlwn y byddai cynnwys rhywfaint o luniau yn cryfhau'r ysgrifau gan gynnig darlun mwy byw a chyflawn i ni o brofiadau'r awduron. Felly pleser oedd cyrraedd y bennod 'Hanes Sefydlu'r Gymdeithas' gan Eiddwen Humphreys, sy'n olrhain cychwyniadau'r gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 1939 a'i gweithgarwch dros y degawdau dilynol. Dyma gofnod hanesyddol gwerthfawr, ac mae'n drueni nad oes dilyniant iddo sy'n ymdrin â gwaith Cymdeithas Cymru-Ariannin ers hynny. Fodd bynnag, sonnir mewn penodau eraill am rai agweddau ar ei gweithgarwch diweddar, megis Cynllun Dysgu Cymraeg Chubut, anfon pregethwyr a chystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol i Wladfawyr, gan adlewyrchu diwydrwydd y gymdeithas dros yr hanner canrif diwethaf.

Wrth i ni nesáu at ganmlwyddiant a hanner ers sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, diddorol iawn oedd darllen adroddiad Valmai Jones ar ddathliadau'r canmlwyddiant yn 1965 mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled Cymru a'r Wladfa - a Llundain - trwy gyfrwng amryw ddigwyddiadau a gweithgareddau cyffrous. Dyma hwb ar gyfer dathliadau'r 150 y flwyddyn nesaf, ac mae crynodeb Elvey MacDonald o'r hyn y gellir ei ddisgwyl yng Nghymru yn 2015 yn sicr o ennyn diddordeb a chyffro!

Dyma gyfrol werthfawr sy'n rhoi trosolwg i'r darllenydd o fwrlwm gweithgarwch Cymdeithas Cymru-Ariannin dros y 75 mlynedd diwethaf, boed gan y darllenydd hwnnw gysylltiad personol â'r Wladfa a'r gymdeithas ai peidio. Trwy gyfres o ysgrifau gafaelgar ac adran luniau fywiog, dyma gyflwyniad gwerthfawr i'r berthynas dra phwysig honno sy'n parhau rhwng Cymru a'r Wladfa. Mae'n rhaid ystyried a fyddai'r berthynas honno cyn gryfed ag y mae hi heddiw oni bai am waith parod a diflino'r gymdeithas hon. Boed iddi barhau felly, fel y gallwn ymhen 25 mlynedd ddarllen am lwyddiannau pellach Cymdeithas Cymru-Ariannin.

Lois Dafydd







## POBL LLEOL YN CODI DROS £2,000 AR GYFER PROSIECT AIL-GODI CARTREFI I FFOADURIAID GAZA




Ymunodd Aelod Seneddol Plaid Cymru Arfon, Hywel Williams, â canoedd o bobl lleol ddydd Sadwrn mewn gŵyl undod â Phalesteina er mwyn codi arian ar gyfer ail-adeiladu cartrefi a ddinistriwyd yn ystod yr anghydfod diweddar.

Dengys ffigyrau diweddar bod oddeutu 100,000 o bobl wedi colli eu cartrefi yn dilyn ymosodiadau gan luoedd Israel tra bod 2,076 o Balesteiniaid wedi eu lladd a thros 10,000 wedi eu hanafu.

Cyn yr ymosodiadau diweddar, roedd 1,240,082 o Balesteiniaid wedi eu cofrestru fel ffoaduriaid yn Gaza. Mae oddeutu 90% o Balesteiniaid yn Gaza yn byw mewn tlodi gyda 95% o gyflenwad dŵr Gaza wedi ei heintio.

Mr Williams oedd un o'r Aelodau Seneddol cyntaf i alw ar y Senedd i ail-ymgynull i drafod yr argyfwng yn Gaza. Bu'n annerch y gynulleidfa yn y rali.

Dywedodd Mr Williams,

"Mae'r gefnogaeth leol tuag at bobl Palesteina wedi bod yn galonogol iawn. Mae'r trais yn erbyn dinasyddion diniwed Palesteina wrth ddwylo byddin Israel wedi ei drechu gan drugaredd a chefnogaeth y gymuned leol yn Arfon ac ar draws Cymru.

Hoffwn dalu teyrnged i ymgyrchwyr lleol yn Arfon ac ar draws Gogledd Cymru, a roddodd eu hamser i drefnu'r digwyddiad yma ynghyd â phawb ddaeth i ddangos eu cefnogaeth.

Rwy'n falch fod cymaint o bobl lleol wedi dod at ei gilydd a sefyll mewn undod gyda phobl Palesteina gan godi dros £2,000 tuag at brosiect i ail godi cartrefi yn Gaza.


Y flaenoriaeth rwan yw dyfodol pobl Palesteina a rhaid i Israel godi'r gwarchae ar Gaza er mwyn caniatau i weithwyr dyngarol gael mynediad i'r ardal gan roi cyfle i bobl Palesteina fynd ati hyd orau eu gallu i ail adeiladu eu bywydau."

Dywedodd y Cyng. Siân Gwenllian,

"Mae'n galonogol gweld cymaint o bobl lleol yn dod at ei gilydd i helpu pobl Gaza, sydd wedi dioddef colledion dirfawr dros yr wythnosau diwethaf."







# LLANRUG Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**Sefydliad Coffa** Enillwyr Clwb Cant Mis Awst

1. Gwenda Roberts, Hafle; 2. Melfyn Jones, 21 Rhos Rug; 3. Goronwy Hughes, Eithinog.

**Plaid Cymru** Enillwyr Clwb Cant Mis Medi

1. Nan Humphreys, Tanycoed; 2. Ifanwy Jones, Brynrefail.

**Cyngor Cymuned Llanrug** Mae sedd wag ar y Cyngor i gynrychioli Ward Llanrug. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch gyda Mrs Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Afallon, Bryn Moelyn, Llanrug (01286 675359) neu Mr Meirion Jones,7 Nant y Glyn, Llanrug (Clerc) (01286 675210).

**Diolchiadau** Yn dawel ar Ward Tegid, Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf 2il, bu farw Clifford Williams, Afallon, Rhes Rhythallt yn 89 mlwydd oed. Gŵr cariadus a gofalus Eleanor am 63 o flynyddoedd.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Eglwys Santes Helen, Penisarwaun.

Hoffai Eleanor ddiolch i holl staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal ac i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd ac am yr holl roddion hael tuag at Tŷ Gobaith Conwy a Meddygfa Waunfawr er cof amdano.

**Taid a Nain Newydd** Llongyfarchiadau mawr i Derek a Hefina, Glan Moelyn, ar ddod yn Daid a Nain i Zak, mab bach i Emma a'i phartner, Caernarfon.

**Profedigaethau** Ar Awst 16 bu farw Selwyn Jones, 3 Hafan Elan, yn ei gartref gyda'r teulu o'i amgylch. Bu Selwyn yn wael ers cyfnod hir ond bob amser yn ddirwgnach ac yn selog efo Dilys, ei wraig, a fu yn gofalu yn annwyl amdano.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu, Dilys, Sharon, Janice, Kenneth a Nesta a'r wyrion a'r wyresau oll.

Yn sydyn ar Awst 21ain bu farw Betty Jones (Holt gynt) o 33 Bro Rhythallt. Sioc fawr i'r teulu ond gobeithio y byddwch yn gefn i'ch gilydd. Fe gydymdeimlwn â chi i gyd, Gareth, ei gŵr, Keith, Karen, Kevin, Garry a Judith a'r teulu.

Wedi gwaeledd byr fe fu farw Veronica Williams, 9 Nant y Glyn yn 63 mlwydd oed. Person hynod o annwyl oedd Veronica, yn mwynhau ei bywyd yn llawn, ac yn hapus gyda'i ffrindiau ym Menter Fachwen. Cafodd y gofal gorau a charedig gan ei chwaer, Charlotte, a'i nithoedd Sarah, Claire a'u teuluoedd. Bydd colled enfawr iddynt ar ôl y wên annwyl oedd ar ei hwyneb bob amser.

**Priodas** Pob dymuniad da a llongyfarchiadau i Trefor Cooke, 3 Glan Moelyn, ar ei briodas â Kim yn Eglwys Llanbeblig yn ddiweddar. Maent yn cartrefu yn Neiniolen.

**Llongyfarchiadau** mawr hefyd i Ioan Jones, Byngalo Glanffynnon, a Rachel ar achlysur eu priodas yng Nghapel y Rhos yn ddiweddar. Maent wedi ymgartrefu yn 4 Bro Rhythallt. Pob dymuniad da i chi i gyd.






## Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i aelodau hen a newydd i gyfarfod cyntaf y tymor yn y Sefydliad Coffa, nos Fawrth, Medi 9fed am 7.30 gan y Llywydd, Menna Williams. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Roedd pawb yn hynod falch o groesawu Heulwen, sy'n gwella'n dda wedi damwain go arw yn ddiweddar. Estynnwyd ein cydymdeimlad dyfnaf â Jean Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth lem a chydymdeimlwyd â Helen Parry wedi dwy brofedigaeth o golli cefnder a brawd yng nghyfraith.

Llongyferchir Ann Lloyd ar enedigaeth wyres fach, Ela Glwys, merch fach i Iwan a Rachel. Yr un modd llongyferchir Avril ar enedigaeth ŵyr bach, Ynyr Morus, ,mab i Cemlyn a Gwenan.

Dymunir pob bendith i Iwan Rhys, mab Eirian ar ei briodas, ac i Ffion, merch Julie, ar ei phriodas hithau. Llongyfarchiadau i Julie a Dennis a Pat a Berwyn ar achlysur eu Priodas Ruddem. Dymuniadau gorau i Eryl ar gyrraedd Oed yr Addewid. Y mae Mair Huws yn brysur yn gwau 'Hosan Nadolig' bersonol o liw o'ch dewis chi er budd yr elusen 'Marie Curie' dyma elusen Haf, Buarthau eleni.

Ar ran Pwyllgor yr Anabl, diolchodd Margaret Parry i bawb am y gefnogaeth gref i'r Ffair Haf ac i'r ymgyrch o gasglu dillad gwely, sebonau, ayyb. Gwnaed elw sylweddol o £2,370 ac mae'r casglu yn parhau. Y mae Merched y Wawr yn genedlaethol yn casglu Ategolion at Ymchwil y Galon o nawr hyd Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2015

Gŵr gwadd y noson oedd Frank Green, yr arlunydd o Ddoc Albert, Lerpwl. Ganwyd Frank mewn pentref bychan, Chirbury, yn Walton, Lerpwl, a hynny yn ystod y Blitz. Sgowsar a fagwyd yn sŵn yr iaith Gymraeg a hynny mewn stryd gyda Chymry ymhob tŷ bron. Yn 1973 penderfynodd ddysgu'r Gymraeg ac erbyn hyn mae'n anodd credu mai Sgowsar ydyw gan ei fod mor rhugl ac yn siarad yn rhwydd mewn acen gref y Gog. Mae'n briod â Meryl, aelod o'r gangen ac yn dad i dri o blant ac yn daid balch hefyd.

Yn ei stiwdio yn Noc Albert, mae Frank yn cofnodi hanes Lerpwl dros y blynyddoedd. Yn fuan yn y saithdegau tystiodd Frank i gymaint o ddymchwel adeiladau yn Everton a Kirkdale, felly i ddal i fyny â'r dymchweliadau roedd gwir angen cychwyn cofnodi mor fuan â phosibl cyn iddynt fynd i ddifancoll llwyr, llefydd fel eglwysi, siopau, tafarndai, clybiau, strydoedd ac ysgolion. Y mae gwaith amhrisiadwy Frank ers dros 50 mlynedd yn dysteb unigryw o'r newid difaol yn Lerpwl a, thrwy ei luniau, mae wedi llwyddo i wneud i bobl fod yn ymwybodol o'r prydferthwch sydd gennym ar stepen ein drws.

Dangoswyd inni hefyd luniau anhygoel o fyd natur ein bro ninnau – bwrlwm afon, tlysni'r coed trwy'r tymhorau a godidowgrwydd blodau ac anifeiliaid.

Diolchwyd i Frank am noson agoriadol hynod o ddifyr a chartrefol gan Menna.

Y mae'r gangen yn dathlu Blwyddyn Ruddem eleni. Byddwn yn dathlu hynny ar Fawrth 11eg yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys, aelod o'r grŵp Bandana a Plu.

Diolchwyd i Margaret, Mair ac Eryl am y baned, enillydd y raffl oedd Ann Ifans.

Ar Hydref 14eg cawn gwmni Steffan Huws gyda 'Pobladocoffi'. Croeso o hyd i aelodau newydd ac yn arbennig i Ddysgwyr y Gymraeg.



Rydym yn falch o groesawu 47 o blant newydd i'r dosbarth meithrin eleni ac yn falch o ddweud fod pawb yn setlo'n dda. Croeso hefyd i ddisgyblion y dosbarth derbyn i'r ysgol drwy'r dydd am y tro cyntaf.

Aeth disgyblion blwyddyn 6 ar ymweliad preswyl â Glân Llyn ar ddechrau'r tymor. Bu pawb yn brysur yn mwynau llu o weithgareddau awyr agored cyn setlo yn ôl yn yr ysgol yn barod am eu blwyddyn addysgol newydd.

## Chwilio am Arwyr Lleol

Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar gymunedau i enwebu arwyr lleol ar gyfer Gwobr Dewi Sant Llywodraeth Cymru.

Dyma'r ail flwyddyn i'r gwobrau cenedlaethol Cymreig gael eu cynnal, ac mae arweinydd Cyngor Gwynedd yn pwyso ar bobl y sir i fanteisio ar y cyfle i gydnabod llwyddiannau o bob math, ym mhob maes a phroffesiwn.

Mae'r gwobrau, a lansiwyd gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn anrhydeddu pobl sy'n gwneud pethau eithriadol, gan ysbrydoli eraill a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl Cymru.

Yn ystod seremoni llynedd daeth y canwr opera o Wynedd, Bryn Terfel, i'r brig yn y categori Rhyngwladol ac enwyd Antur Waunfawr ar y rhestr fer yn y categori Menter. Dyma gyfle i enwebu mwy o arwyr lleol er mwyn sicrhau fod enw da Gwynedd yn cael ei lle cyfiawn ar y llwyfan cenedlaethol yn 2015.

Y categorïau ar gyfer enwebiadau eto eleni fydd:

·Dewrder

·Dinasyddiaeth

·Diwylliant

·Menter

·Arloesedd a Thechnoleg

·Chwaraeon

Rhyngwladol

·Person ifanc

Y dyddiad cau yw 28 Hydref.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards: "Bron bob diwrnod rydym yn clywed am rywun sy'n gwneud gwahaniaeth i gymdeithas - o bobl sydd wedi cyfrannu'n ddiflino dros gyfnod hir er budd eraill i rywun sydd wedi gwneud rhywbeth allan o'r cyffredin i helpu rhai mewn angen.

"Rydw i'n galw ar drigolion Gwynedd i feddwl am y bobl hynny, o bob oed a chefndir, sy'n haeddu cydnabyddiaeth ar y llwyfan cenedlaethol ac i gymryd ychydig funudau i gwblhau'r broses enwebu."

Am fwy o fanylion, ac i enwebu arwyr lleol, ewch i'r wefan www.GwobrauDewiSant.org.uk

# Meddygfa Waunfawr a Llanrug

**Clinic Ffliw**

**Waunfawr**

16 Medi: 1.00-2.30 (trwy apwyntiad)

22 Medi: 1.00-2.30 (trwy apwyntiad)

29 Medi: 1.00-2.30 (trwy apwyntiad)

**Llanrug**

30 Medi: 9.00-11.00 (trwy awyntiad)

**Festri Waunfawr**

14 Hydref: 9.00-11.30 (agored) a 1.00-3.30 (agored)

**Clinic Ffliw Plant**

Dydd Sadwrn, Hydref 25: 9.00-11.00
(Trwy wahoddiad llythyr)


"FFONIWCH DIONI I GAEL 'BWCINGS' YCHWANEGOL DROS Y GAEAF"

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



DIONI

# CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

## O'r Pwlpud i'r Crogbren.

Dyna i chi deitl i golofn! Ond wir i chi, dyna deitl nofel a gyhoeddwyd dros gant o flynyddoedd yn ôl, a honno wedi ei lleoli yn Nant Peris. Ac mae'n rhaid cyfaddef na ddarllenais y cyfan ohoni 'chwaith. Yr awdur oedd William J. Griffiths, Rhiwlas, ac is-deitl y nofel yw 'Ffug chwedl ddirwestol'. Mae hynny'n rhoi rhyw syniad o'r math o stori i'w ddisgwyl. Argraffwyd y nofel ym mis Medi 1905 gan Evan Thomas, Bangor, a theitl y bennod gyntaf yw "Bwthyn a chymeriadau hen aelwyd Nant Peris."

Ond pwy oedd William J. Griffiths? A pham y lleolwyd cychwyn y nofel yn Nant Peris? Mae posibilrwydd mai o'r Nant y deuai'r awdur yn wreiddiol, oherwydd yn y bennod gyntaf mae'n ysgrifennu yn y person cyntaf, ac yn son am ei nain yn ei alw'n 'Willie' er mai fel 'William' yr hoffai ef gael ei gyfarch.

Doedd dim amdani ond chwilio cyfrifiadau ardal Rhiwlas yn Llanddeiniolen, a Nant Peris ym mhlwyf Llanberis. Tybed a fyddai rhywun o'r enw William J. Griffiths yn dod i'r amlwg? Yn 1891 deuthum o hyd i deulu yn byw yn 1 Bryn Tirion, Rhiwlas. Roedd y tad, John Griffiths yn 34 oed ac yn disgrifio'i hun fel "Wesleyan Methodist preacher and slate quarryman." Roedd yn amlwg fod y pregethu yn bwysicach iddo na'r gwaith bob dydd a ddeuai a chyflog i'r teulu! Swniai'n debyg i'r math o berson a fyddai'n pwysleisio pwysigrwydd dirwest ar ei blant. Wyth oed oedd William John bryd hynny. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yng nghyfrifiad 1901, roedd y teulu yn byw yn Cefn Braich, Rhiwlas, a'r tad wedi marw. Roedd y fam deugain a dwy oed yn wraig weddw, a'r mab, William John yn ddeunaw oed. Os mai hwn oedd awdur y nofel, dim ond dwy ar hugain oed oedd pan gafodd ei chyhoeddi. Methais a chael neb arall o'r un enw yn byw yn Rhiwlas yn ystod y ddau gyfrifiad.

Oes rhywun a gwybodaeth ychwanegol am yr awdur neu am y teulu?

(Gyda llaw, os dymunwch brynu copi o'r nofel, mae Amazon yn hysbysebu ail-argraffiad ohoni am tua pymtheg punt!)

## Ysgol Brynrefail 1934.

Cafwyd dau ymateb i'r rhestr a gyhoeddwyd y mis diwethaf. Cysylltodd John Glyn Hughes o Lanidloes i nodi mai ei gyfnither o fferm Cefn Llwyd, Cwm y Glo oedd ar ben y rhestr. Cysylltodd Wilfred Jones o Frynrefail i ddweud mai ei fodryb, Freda Mathews Jones oedd yn ail ar y rhestr. Roedd yn byw ym Mrynrefail, ond yn mynychu Ysgol Deiniolen. Dim ond deg oed oedd hi ar y pryd, a chafodd wobr o bunt a deg swllt yn anrheg yn y capel am ei llwyddiant.



## Ysgol Dolbadarn, Llanberis.

Mae'r llun wedi ei dynnu yn 1895 pan oedd 170 o enwau ar lyfrau'r ysgol, a'r cyfartaledd presenoldeb yn 150. Flwyddyn ynghynt cafodd 60 o'r disgyblion fedal am fod yn bresennol yn yr ysgol bob diwrnod o'r tri thymor – a'r rhain sydd yn y llun. Ond, mae'n ddiddorol sylwi mai bechgyn yw'r cyfan ohonynt: doedd dim un eneth wedi llwyddo i beidio colli diwrnod o ysgol. Er hynny, rhag gwneud cam a genethod Llanberis, mae'n deg dweud mai 'Ysgol y Bechgyn', Dolbadarn sydd ar y llun. A oedd dwy ysgol yn y pentref bryd hynny – un i'r bechgyn a'r llall i'r genethod? Ac ymhle yn union yr oedd yr ysgol wreiddiol? Yr unig ddisgrifiad a geir yw fod yr ysgol ar gwr de-orllewinol y pentref ac yn uwch nag ef.

Yn 1895 roedd bachgen o'r enw W.E.Davies wedi cyrraedd y brig yn yr arholiad i gael mynediad i Ysgol Bangor (doedd Ysgol Brynrefail, neu Ysgol Sirol Llanberis fel yr oedd yn wreiddiol, ddim wedi ei hadeiladu). Pwy tybed oedd y sgolor hwn, a beth fu ei hanes wedyn?

Am dair mlynedd ar ddeg cyn y flwyddyn hon roedd yr ysgol yn cael y grant uchaf posibl oherwydd canlyniadau ei disgyblion, ac yn cael adroddiadau ffafriol iawn yn flynyddol. Y prifathro ar y pryd oedd D. W. Thomas, brodor o Gefn Coed y Cymer ger Merthyr Tudful. Tybed pa un o'r ddau athro yn y llun yw hwn.

## Stad Plas Pentir.

Derbyniais neges gan Hywyn Williams (Deiniolen gynt) yn adrodd fod rhan o'r Waun Gynfi wedi bod yn eiddo i Stad Plas Pentir dros ddau gant o flynyddoedd yn ôl. Anfonodd nifer helaeth o ddyfyniadau o wahanol ddogfennau a thraethodau yn cyfeirio at Cae Cethin a Chaeau Uchaf, ond yn ôl ei gyfaddefiad ef ei hun, mae cryn waith didoli arnynt. Gobeithio y gallwn daflu mwy o oleuni ar yr eiddo hwn yn rhifyn nesaf yr "Eco". Gyda diolch am gasglu'r holl wybodaeth, a chyfeirio at eiddo ar y Waun Gynfi nad oedd ym meddiant y Faenol neu Stad Coed Alun.

## Gemau'r Glyn yn copïo Odlau'r Afon.

Daeth ymateb gyda'r troad gan Ieuan Williams, Bethel ynglŷn â'r cyhoeddiad o ardal Rhiwlas a Glasinfryn. Mae copi o "Odlau'r Afon" yn ei feddiant, sef cyhoeddiad o ardal Dinorwig a Deiniolen. Pwyllgor dan arweiniad y Parch J. Salt, Eglwys Llandinorwig, fu'n gyfrifol am ei gyhoeddi, ond yn anffodus, nid enwir aelodau'r pwyllgor. Fe'i hargraffwyd gan wasg Gwenlyn Evans, Caernarfon yn 1898, dros ddeng mlynedd dda ar y blaen i ardal y Rhiwlas/Glasinfryn. Mae'n llyfryn o tua deugain o dudalennau.

Mae'n ymddangos hefyd fod pwyllgor ardal Rhiwlas/Glasinfryn wedi mabwysiadu'r un patrwm yn union ac 'Odlau'r Afon'. Mae'r rhagymadrodd bron yn union yr un fath. Nid yw'n gopi gair-am-air, ond yr un yw rhediad y geiriau a'r brawddegau.

Yn "Odlau'r Afon", cydnabyddir yr hawl a roddwyd yn ddi-dâl gan nifer o bersonau, yn ogystal a Swyddfa'r Llawlyfr Moliant, Llyfrfa'r Wesleaid a Swyddfa'r Methodistiaid, i ddefnyddio eu tonau a'u hemynau. Mae'n amlwg felly mai menter gyd-enwadol oedd hon.

Mae'r rhagymadrodd yn diweddu drwy gyhoeddi fod cost ariannol i gynhyrchu'r llyfryn, ond fod y pwyllgor yn gobeithio y byddai'r gost "wedi ei had-dalu yn ddigonol os y cyrhaedda yr amcan mewn golwg, sef codi y canu i safon uwch nag y mae ar hyn o bryd."

Mae'r copi sydd ym meddiant Ieuan Williams a chryn ôl traul, ac mae'n amlwg felly fod cryn ddefnydd wedi bod arno yn ystod dechrau'r ganrif ddiwethaf.

Ond beth am ardaloedd Llanberis, Llanrug, Bethel a'r Waunfawr? A oedd llyfryn tebyg yn eiddo i'r ardaloedd rheini hefyd?

# Cofio dau frawd a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r daflen goffa yn nodi marwolaeth dau frawd o Glangors, Ceunant, Waunfawr, a gollodd eu bywydau ar ddiwedd y Rhyfel, y naill yn Ffrainc a'r llall yn Salonica. Meibion oeddynt i Thomas a Kate Hughes, ac y mae aelodau'r teulu yn parhau i fyw yn y fro heddiw. Cyfansoddwyd penillion coffa iddynt gan D.J.Owen, Glangwyrfai, Waunfawr. Galwai ei hun wrth yr enw barddol Dewi Gwyrfai. Oes unrhyw un o'r darllenwyr yn gwybod mwy o hanes (neu o waith) y bardd lleol hwn?



Er Cof Anwyl
AM
Johnnie Hughes
Anwyl fab Thomas a Kate Hughes, Glan Gors, Ceunant, Waenfawr,
Yr hwn a glwyfwyd ar faes y frwydr yn Ffrainc, Awst 20fed, ac a fu farw Medi 15fed, 1917,
YN 23 MLWYDD OED

Er Cof Anwyl
AM
Willie Hughes
Anwyl fab Thomas a Kate Hughes, Glan Gors, Ceunant, Waenfawr,
Yr hwn a gymerwyd yn garcharor yn Salonica, Medi 18fed, ac a fu farw Medi 30ain, 1918, yn Serbia.
YN 20 MLWYDD OED.

Er Cof
Am Johnnie a Willie Hughes, Glangors.

Anhawdd gwrando can aderyn
Sy gorfiaw ar frig y llwyn;
Pan mae calon dan ei hiraeth
Yn y fynwes'n dweyd ei chwyn.
Hed fy meddwl ar adenydd
Adgof, draw i faes y drin,
Lle yr hana llawer arwr,
Gwympodd yn y rhyfel flin.

Dau o fechgyn ieuanc hawddgar
'N troi eu hwyneb tua'r gad,
Gadael Cymru gwlad y bryniau
A'i hawelon mwynion mad;
Gadael swn caniadau Seion,
Gadael tad ac aelwyd glyd,
Gadael chwaer a brawd yn wylo,
Gadael mam fu'n siglo'u cryd.

Dau o frodyr ieuanc heinyf
Ydoedd Willie Hughes a John;
Gwrid ieuengctyd ar eu gruddiau
'N dawnsio fel y gwanwyn llon;
Llawn o swyn fel llwyn rhosynau
Oedd eu bywyd ieuanc gwyn;
'R oedd ... eu cymeriad
Yn blodeuo yn y glyn.


Glangwyrfai, Waenfawr.

Mynd i'r frwydr yn lluddedig,
A'i wladgarwch pur yn fflam,
I wynebu gelyn creulawn
A gwroldeb ymhob cam;
Ond yn aberth drud 'raeth Johnnie,
Ni chawn weld ei wyneb mwy,
Yn ei fynwes cafodd archoll
Ingol gledd angeuol glwy'.

Yn glwyfedig mewn ysbytty,
Cysgod angau ar ei wedd,
Ond diangodd uwch gofidiau
Fry i ganol gwlad yr hedd;
Sua'r awel dros ei fynwent,
Cana'r fronfraith ber ei chainc,
A'r fwyalchen hwyrol emyn,
Uwch ei fedd yn naear Ffrainc.

Yn garcharor gan y gelyn
Y bu Willie dyner gu,
Teifl y nos ei llen tywyll
Dros hen furiau'r carchar du;
Dwyn ei benyd dan ei boenau
Mewn cadwynau estron dir,
Bu farw ... 
Draw yngwlad y palmwydd ir.

D. J. OWEN (DEWI GWYRFAI).



# Ac i orffen, cofio'r tren chwarel.

Anfonwyd y llun gan Brenda Jones, Waunfawr (Crawia, Llanrug, gynt). Tynnwyd y llun tua 1952/53, ac mae'n dangos y tren yn croesi'r bont yn y Crawia. Mae'r bont wedi ei thynnu i lawr erbyn hyn, ond mae'r pant oddi tani yn dal i achosi problemau gyda llifogydd achlysurol. Mae'n dychryn rhywun i feddwl fod hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers i'r tren olaf (ar lein y chwarel neu ar y 'lein fawr') ei gweld yn teithio ar lawr y dyffryn, a dwy genhedlaeth wedi eu magu yn y fro na welsant dren gwaith yma o gwbl.

Anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth am hanes lleol y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffon: 01286673515.


Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

GWYNANT PIERCE
CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU CYSTADLEUOL
Uned 1
Fferm Bryn Afon
LLANRUG
(01286) 674183
07889899901

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

# PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Diolch yn Fawr** Fe hoffai Helen Owen, 7 Bryn Hyfryd, Penisarwaun, ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion ac aelodau'r teulu am eu caredigrwydd a'u haelioni - yr anrhegion, blodau, cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Ward Enlli ac yn arbennig i Dafydd am ei garedigrwydd ac amynedd. Diolch yn fawr. Hoffai Dafydd hefyd ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Ysgol Gymuned Penisarwaun**

**Croeso**

Croesawyd 5 o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin, mae Megan, Huw, Havi, Gwenno a Nina wedi setlo'i lawr yn dda iawn yn ein plith.

Croesawn Miss Rachel Hanks yn ôl fel Cymhorthydd y dosbarth Meithrin yn dilyn absenoldeb mamolaeth.

**Pob Lwc!** Dyna ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail.

**Gwersi Nofio** Mae 33 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5, a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau, mae pawb yn mwynhau.

**Gwersi Offerynnol** Mae 16 o blant yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.

**Urdd Adran Ysgol** Mae nifer o'r plant wedi ymaelodi am y flwyddyn 2014 -15.

**Ffair Lyfrau** Trefnwyd ffair lyfrau gan y Cyngor Ysgol rhwng Medi 22 a 24. Croesawyd pawb a pharatowyd paned a bisgedi ar ddiwedd pob sesiwn. Diolch i bawb a alwodd draw i gefnogi.

**Gwasanaeth boreol** Galwodd Mr Andrew Setatree yn yr ysgol bore dydd Mawrth Medi 23ain.

**Tynnu Lluniau** Bydd Mr Gwynant Parri yn yr Ysgol bore dydd Mawrth Tachwedd 11eg i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw un sydd heb blant yn yr Ysgol i alw draw os dymunant.

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun**

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Awst Mr Dave Ash Commercial rhif 40, Llongyfarchiadau.

**Trip Siopa Nadolig** Bydd bws yn cychwyn o Benisarwaun am 7:30 bore Sadwrn Tachwedd 22ain i Lerpwl, gwely a brecwast yn y "Novotel" a chychwyn adref pnawn Sul am 4 o'r gloch. Pris £80. Mae ychydig o le ar ôl ar y bws os oes gan rywun ddiddordeb. Cysylltwch â Jean (881993 ) neu Liz (872421)

**Gwellhad** – Anfonwn ein cofion at Mrs Pat Jones Tai Arthur wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**DIOLCH** Dymuna Heulwen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra'n gwella wedi ei damwain. Diolch am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn i godi ei chalon.

**Ysgol Sul Bosra** Braf iawn oedd croesawu pawb yn ôl i'r Ysgol Sul ar Fedi 7fed. Dymunir pob llwyddiant i Elin yn Ysgol Brynrefail a hyfryd oedd ei chael yn ôl atom i helpu Anti Liz gyda'r aelodau ifanc iawn. Thema'r tymor hwn fydd 'Cartrefi', a byddwn yn hynod ddiolchgar o unrhyw syniadau, llyfrau storiol a gwybodaeth am y pwnc.

Cynhelir Cyfarfod Gwobrwyo y Fedal Gee i Mr Evie Jones, yr Arolygwr ffyddlon ers blynyddoedd maith, bnawn Iau, Hydref 2il am 2.30 yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele. Mae'n siŵr fod aelodau'r capel, cyn-aelodau'r Ysgol Sul a'r 18 aelod presennol, ynghyd â'r athrawon a'r rhieni yn llongyfarch Mr Evie Jones ac yn diolch iddo am ei wasanaeth clodwiw.

**Pwyllgor y Neuadd Gymuned** Y mae Catalog Webb Ivory bellach ar ei daith o amgylch aelodau'r Pwyllgor. Y mae Phyllis yn awyddus i'w gael yn ôl yn ddi-ffael erbyn Tachwedd 1af os gwelwch yn dda. Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr yw Mr Wil Jones, Bryntirion a Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion.

Bydd gwybodaeth am weithgareddau'r tymor yn y rhifyn nesaf, wedi Pwyllgor Medi 22ain, gan obeithio y ceir eich cefnogaeth arferol er budd ein hieuenctid a gweithgareddau cymdeithasol y pentref.

**Diolchiadau** Dymuna teulu Treflys, Jean, Sioned, Siôn, Llion a'r teuluoedd ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, cymdogion a ffrindiau cymuned Penisarwaun a Llanrug am eu cydymdeimlad a'r geiriau caredig a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth lem o golli gŵr, tad, taid a ffrind arbennig iawn – Gwynfor. Gwerthfawrogwyd y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion hael tuag at Ward Alaw a Hospis yn y Cartref. Diolchir yn arbennig i'r Canon Tegid Roberts am ei wasanaeth tyner ac i Dylan a Meinir Griffiths am y trefniadau trylwyr.

Dymuna Siôn a Jean ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion niferus ar achlysur eu pen-blwyddi arbennig, ar Awst 20fed ac Awst 29ain, a hynny ar adeg mor deimladwy iddynt fel teulu.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Kelvin a Rhian, 3 Bryn Eglwys, ar enedigaeth eu merch fach, Lili Megan, ar Fedi'r 11eg, chwaer fach i Mali Efa.

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

**Yr Eglwys Bresbyteraidd** Yn yr oedfa ar Fedi 7fed anfonwyd cofion at Jennie Angharad Roberts. Nid yw wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar ac rydym yn ei cholli o'r oedfaon. Balch oeddym o groesawu Robert John Williams i'n plith ac wedi gwella'n dda yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gobowen.

**Y Gymdeithas** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Lun, Medi'r 15fed. Croesawodd y Cadeirydd Robert John Williams, y siaradwr gwadd, sef Huw Fôn Roberts, Godre'r Coed. Cafwyd noson ddiddorol a hwyliog yn ei gwmni yn olrhain hanes y grefft o wneud llwyau caru a'i ddiddordeb dros y blynyddoedd o greu llwyau caru a llawer ohonynt wedi cyrraedd bob cwr o'r byd. Gwerthfawrogodd y cadeirydd yn fawr y sgwrs a mwynhad pawb o'r noson. Yn ôl yr arfer bydd y Gymdeithas yng nghyfarfod mis Hydref yn cloi eu gweithgareddau gydag ymweliad i fan arbennig. Eleni trefnwyd i ymweld â Gwinllan Pant Du Penygroes bnawn Mawrth, Hydref 7fed.

**Oedfaon Hydref am 5.30**

5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
12: Dim Oedfa
19: SUL DIOLCHGARWCH
Parch Geraint Roberts, Porthaethwy
26: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

# CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Gweblyfr (Facebook)** Mae Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro bellach wedi sefydlu Gweblyfr. Bydd yn cael ei ddiweddaru yn gyson gyda newyddion y pentref, rhestr digwyddiadau a chyfle i dderbyn syniadau trigolion y pentref. Dilynwch 'Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro'.

Tynfa misol 1af: £40 Selwyn Hughes, 7 Erw Wen; 2il: £25 Hefin Hughes, Cefn y Gof; 3ydd: £15 Dewi Parry, Cefn Rhos; 4ydd: £5 Meinir Herring, Tyddyn Uchaf Bach.

**Marathon Eryri** Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i weini lluniaeth ar gyfer rhedwyr Marathon Eryri ar Hydref 25ain yn Llanberis. Bydd Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro yn derbyn rhodd ariannol am hyn. Os hoffech fwy o fanylion cysylltwch â Hannah ar 07816 316236.

**Gwasanaethau y Capel**

Ar Hydref 5ed, am 2.00 y prynhawn cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal y Gweinidog,Y Parch Marcus Robinson.

Ar Hydref 19eg, am 10.00 y bore gweinyddir gan Mr Edward Morus Jones.

Llywydd y mis yw Eryl Jones a bydd hefyd yn gofalu am ddyddiadur llogi y Ganolfan am y mis.

Organydd y mis fydd Nia Jones.

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i blant a phobl ifanc y pentref sydd wedi llwyddo mewn arholiadau, mewn gwaith a/neu yn symud i ysgol/coleg. Cofiwch ble mae eich gwreiddiau!

# Miri Medi 2014

Hoffai Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth draw i gefnogi Miri Medi eleni a gwneud y digwyddiad yn llwyddiannus. Diolch arbennig i noddwyr yr ŵyl am eu cyfraniadau hael: Gwalia Garage, Glan Gwna, Canolfan Hamdden Plas Silyn, Caffi Glan Gwna, Hogans Construction, Celtest, Black Boy Inn/ Gypsy Wood a Mrs Hamilton (Y Gof)

Raffl – Diolch i bawb wnaeth gyfrannu gwobr – Gelli Gyffwrdd, Portmeirion, Redline Cartio Dan Do, Y Castell, Gray Thomas, Picamics a Petals, L & A Fitness, Cutting Parlour, Cigydd O.G. Owen & Son, Palas Caffi, Fron Goch.

Diolch i'r holl fudiadau am fynychu gyda stondin- Ieunectid Gwynedd, Mantell Gwynedd, Ambiwlans Awyr, Cynllun Ffrindia', Picamics a Petals a Anthony Lee Morgan (Peintio Wynebau)





Bake Off – Diolch i'r Beirniaid, Gwenda Jones (Mary Berry Caeathro) a Karen Element am eu gwaith caled o feirniadu yr holl gacennau.

Llongyfarchiadau i Llio Gwyn Jones ar fod yn fuddugol gyda chacen sbwng lemwn yng nghategori'r oedolion ac i Anna a Tomos Evans (Erw Wen) am fod yn fuddugol gyda'u cacennau bach panda yng nghystadleuaeth y plant.

Cystadleuaeth Celf – Diolch i Eirian Pritchard am fynychu i feirniadu y gystadleuaeth newydd hon. Llongyfarchiadau i blant Cefn y Gof am fod yn fuddugol gyda'r goeden fawr hyfryd wedi ei gwneud o ddeunyddiau ailgylchu.














Noson Gymdeithasol – Braf oedd gweld dros 150 o drigolion Caeathro yn mynychu noson gymdeithasol yn Cefn y Gof. Daeth trawstoriad o bob oedran at ei gilydd i fwynhau 'Hog Roast', Bucking Bronco a sgwrs. Diolch i Owain a Llŷr Jones (Erw Wen) am yr adloniant yn ystod y noson.

Diwrnod a Noson Fythgofiadwy i Gaeathro. Diolch i bawb ac edrychwn ymlaen i'r digwyddiad nesaf.

# Ysgol Cwm y Glo






Helo, Dion ac Ethan ydym ni. Ni fydd yn ysgrifennu am Ysgol Cwm y Glo i'r Eco'r Wyddfa eleni am hynt a helynt Ysgol Cwm y Glo. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith roedd Aaron, Rhiannon, Robert, Keith, Katrina a Chloe wedi ei wneud llynedd, ac rydym yn dymuno'r gorau iddynt yn yr ysgol uwchradd. Daeth cyn aelodau o staff i'r ysgol ar ddiwedd ein gwasanaeth i ffarwelio efo nhw. Roedd hi'n braf gweld Mrs. Hughes, Mrs. Roberts Bethel a Mrs. Roberts Dre yn yr ysgol unwaith eto.

Diolch yn fawr i Anti Janet am wneud te bendigedig i bawb ar ddiwedd y pnawn.

Croeso i blant dosbarth Meithrin newydd eleni, Erin ac Isabel. Mae'r ddwy yn mwynhau yma yn yr ysgol. 'Sa chi yn meddwl eu bod nhw wedi bod yma erioed! Dyma nhw efo gweddill plant y dosbarth.

Mae Dosbarth Peris wedi bod am dro drwy'r pentref yn edrych ar fathau o dai ar gyfer eu gwaith thema.

**Llongyfarchiadau** i Chris Jones, Fron Gader sydd yn brysur iawn yn canu ar lawer llwyfan ers iddo ymddangos ar y rhaglen Heno yn ystod y gwanwyn.

**Gwellhad Buan** Bu amryw o'r pentref yn cwyno yn ddiweddar. Bu Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon; Mrs Rhian Jones, Bron Eryri; Mrs Dilys Jones, 3 Maes Gerddi a derbyniodd Mr Les Orritt, Moranedd, driniaeth i'w lygaid yn Ysbyty Abergele. Dymunwn wellhad buan i chwi i gyd.

**Prifathrawes yr Ysgol** Erbyn hyn rwy'n siŵr fod Mrs Nia Oliver yn dod i arfer i'w swydd fel Pennaeth yr Ysgol. Dymuna'r Llywodraethwyr, y rhieni, y plant a phawb yn y pentref bob dymuniad da i chwi yn y dyfodol.

**Dymuniadau Gorau** i Dafydd Hughes, Dôl Afon a Gerwyn Jones, 24 Dôl Afon sydd wedi dechrau ym Mhrifysgol Bangor y tymor hwn.

**Llongyfarchiadau** i Medi a Gareth, 13 Dôl Afon ar ddod yn nain a thaid i Cai Lloyd, mab bach Dewi a Fiona, brawd i Osian a gor ŵyr i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri.

**Adref o'r America** Yn ystod y mis diwethaf daeth Alison ac Andrew, ac yn arbennig, eu merch fach Seren adref am wyliau. Dyma'r tro cyntaf i Seren ddod i tŷ nain, sef Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, felly roedd nain wedi gwirioni gyda'r un fach. Gobeithio y daw'r teulu adref yn fuan eto.

**Undeb y Mamau** Ailddechreuwyd ein cyfarfodydd bnawn Mawrth, Medi 16 yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Rheithor, Y Parchedig Roger Donaldson a darllenwyd y llithoedd gan Auriel Howell. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfarfod a lluniaeth yn y festri.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan arweinydd y gangen, Hilda Orritt. Rhoddwyd croeso arbennig i Irona Morgan sydd wedi dod o Gaerdydd i ymgartrefu yng Nghaernarfon ac wedi ymaelodi â changen Llanbeblig.

Cafwyd ymddiheuriad gan nifer o aelodau oherwydd gwaeledd. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a phasiwyd eu bod yn gywir.

Materion a godwyd

Cyfarfod nesaf – 21 Hydref, Cyfarfod Blynyddol a bwrdd gwerthu

Codi arian i'r gangen – Trefnu gyda aelodau cangen sy'n cyfarfod gyda'r nos.

Cinio Nadolig – Pasiwyd i gael y cinio ddiwedd mis Tachwedd fel llynedd.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Gwyneth, Marjorie, Dorothy a Hilda. Rhoddwyd y raffl gan Dorothy ac fe'i henillwyd gan Louie Jones.

Diolchwyd i'r gwesteion gan Auriel a diolchwyd i'r Rheithor gan Hilda. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT
menter fachwen
RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163
www.menterfachwen.org.uk
CYFENTER
Menter Môn
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
ERDF
Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Teithiau Cerdded Hydref.**

### GWENER 3 HYDREF 2.00yp

EGLWYS LLANRUG (1½ milltir)

CYCHWYN: CAE CHWARAE GLANMOELYN, LLANRUG.

HAWDD IAWN.

Mae'r daith yn dilyn archwiliad newydd i hanes yr eglwys ar ôl i ni gael benthyg copi o'r llyfr ' Rural Welsh Parishes: Llanrug' (1907). Cawn fynd i mewn i'r eglwys ei hun.

### IAU 9 HYDREF 2.00yp

SIOE HEN LUNIAU BRO ECO'R WYDDFA

NEUADD GOFFA, LLANRUG.

Hen luniau a hanesion o Bethel, Brynrefail, Cwm y Glo, Deiniolen a Clwt y Bont, Dinorwig, Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug, Nant Peris, Penisarwaun a Waunfawr. Tua 2 awr.

### GWENER 17 HYDREF 9.30yb

CWM Y GLO I CEFN DU: YR OES HAEARN (5 milltir)

CYCHWYN: MENTER FACHWEN, CWM Y GLO.

ANODD IAWN GYDA BRYNIAU SERTH. LLWYBRAU CYHOEDDUS.

SGIDIAU CERDDED YN HANFODOL.

### GWENER 24 HYDREF 10.00yb

GELLI GYFFWRDD I PENSCOINS, Y FELINHELI (2½ milltir)

CYCHWYN: GELLI GYFFWRDD, LLANDDEINIOLEN.

CYMHEDROL. YCHYDIG O LWYBRAU CYHOEDDUS. SGIDIAU CERDDED.

Rydym yn gweithio ar fap o'r Felinheli ar hyn o bryd ac wedi darganfod y gylchdaith hardd a diddorol hon.

GERAINT OWEN CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

## "Newid mae gwybodaeth ..." (Elfed)

*(Today, Radio 4, 06.45hrs – Medi 3ydd 2014)*

Angharad sgwennodd yn y Daily Post
a hynny'n onest - a hollol ddi-fost

am y chwiw o beintio talcen tŷ
â neges enwog y cawr o Ryd Ddu ...

"Y mae adnod yn honni bod Crist wedi dweud
"Ystyriwch y brain" a dyma fi'n gwneud."

Bu'n syniad ar droed o Fynwy i Fôn,
llythyru, - ebostio – peidiwch a sôn!

Cytunais â phopeth – fel dyn ar frys
('rargymhelliad dwyfol – rhag mater llys)

Gwyddwn am gastiau "cableddus" y brain,
denantiaid cecrus ucheldir a llain.

Cigfran ac ydfran, piod a jac-do,
sgrech 'goed, brain coesgoch mewn ambell i fro.
Barn y gwybodusion fu mai hwynt-hwy
y brain, yw'r sgleigion byd adar bob plwy!

Wrth sylwi'i haelodau'n ffynnu 'mhob man
au gweld yn sglaffio sbâr sglodion y Llaw

pwy oeddwn i i anghytuno â'r ffaith
bu'r brain fel Man U ers blynyddoedd maith!

Ond ow! Y dydd o'r blaen, ar raglen wych
taflwyd y goel fel 'r a cudyll dros wrych!

Peidied neb â meddwl mai'r gwdi-hw
chwaith yw y brêns, O na – y coc – a o tŵ!
Fel y brain gall ddysgu – ond gefyd GREU
i oresgyn rhyw broblem – cyn dechrau gweu!

"Nawr – clywaf y Tom o Rhyd Ddu yn dweud
'styriwch y coc a tw – a dyma wneud."

Ni ddaw i'w carfan yr un Van Gaal –
gosodwyd y glasbrint gan Grewr ddi-dâl!

*Norman Closs*
(Van Gaal – rheolwr newydd Man U)

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr





## Diwrnod Menter

Yn rhan o'u rhaglen Anwytho croesawyd Selwyn Griffith, o gwmni Menter yr Ifanc, gan aelodau o flwyddyn 12. Fe'u heriwyd ganddo i dreulio amser yn canolbwyntio ar Dwristiaeth. Gosodwyd sialens iddynt ganolbwyntio ar gwmni, unai cwmni eisoes wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o'i ehangu, neu ddatblygu cwmni o'r newydd. Fe dreuliwyd y diwrnod yn ymchwilio ac ymbwyllo gyda'r gofynion o redeg cwmni gyda dylunio cynnyrch, cyllido, cynlluniau marchnata, ymgyrch hysbysebu. Yn ddi ben draw, prif bwrpas y diwrnod oedd datblygu'r gallu i gydweithio a chyd drafod.

Cafwyd mewnbwn hefyd gan Iwan Marshall, isod, Cyfarwyddwr Marchnata a Gwerthiant, Cwmni Outlook Expedition.



## Blwyddyn Newydd Dda

Ar ôl ymuno yn eu gwasanaeth cyntaf yn Ysgol Brynrefail fe groesawyd 123 o aelodau newydd i deulu Brynrefail gan y Pennaeth, Mr Eifion Jones, a'r staff fydd a chyfrifoldeb penodol drostynt.

A phob disgybl yn edrych yn gaboledig yn eu gwisg ysgol newydd fe rannodd y Pennaeth ei gofion cynnar o'i ddiwrnod cyntaf ef yn yr ysgol uwchradd. Awch o bleser yn cyfuno gyda theimladau o newydd-deb a nerfusrwydd.

Buan iawn fydd y newydd-deb a'r nerfusrwydd yn diflannu ond o'u croesawu i'n plith gobeithiwn y bydd yr awch o bleser yn cynyddu fesul diwrnod.

Croeso i'r teulu Blwyddyn 7.





## Llongyfarchiadau.

Ym marn pawb fe gafwyd y canlyniadau gorau erioed yn arholiadau A, A.S. a T.G.A.U. eleni. Wrth gwrs, trist oedd gweld yr hen flwyddyn 13 yn hedfan o'r nyth ond yr oedd balchder hefyd o wybod bod pob un wedi cael y lle yn y brifysgol yr oeddynt yn dymuno astudio ynddi.

Ac ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd fe groesawyd dros drigain o fyfyrwyr newydd, fu gynt yn ddisgyblion, i'r ysgol i drafod eu pynciau dewisedig wedi eu llwyddiant aruthrol yn yr arholiadau T.G.A.U.

Cydnabuwyd y llwyddiant yng ngeiriau Cadeirydd y Llywodraethwyr, Dafydd Roberts:

'Hoffwn, ar ran y Corff Llywodraethu, longyfarch y disgyblion ar ei llwyddiannau yn eu harholiadau allanol eleni. Mae'n ymddangos fod cynnydd wedi ei wneud ymhob un o'r mesuriadau a hoffwn ddiolch i'r staff am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn sydd wedi arwain at y llwyddiant hwn.'

# "Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"

## PRIF DDISGYBLION 2014/15



Math Emyr – Dirprwy Prif Ddisgybl; Glesni Angharad Parry - Dirprwy Prif Ddisgybl; Caio Mabon Hywel - Prif Ddisgybl; Manon Fflur Thomas - Prif Ddisgybl; Ela Mair Owen - Dirprwy Prif Ddisgybl; Gruffydd Rowlands - Dirprwy Prif Ddisgybl.



### Prif Ddisgybl

Enw llawn:
Caio Mabon Hywel
Yn hanu o: Bethel
Ysgol Gynradd: Bethel
Hoff beth- Pêl-droed
Hoff fwyd: Chinese
Hoff raglen deledu: Modern Family
Hoff fiwsig: Emyr yn canu. Pob math o fiwsig
Cas beth: Busquets (chwaraewr Barcelona)



### Dirprwy Prif Ddisgybll

Enw llawn:
Ela Mair Owen
Yn hanu o: Llanfaglan
Ysgol Gynradd: Bontnewydd
Hoff beth: Chwarae Pêl Rwyd
Hoff fwyd: Pysgod, sglodion a phys slwtsh
Hoff raglen teledu: Gwylio ychydig iawn o deledu ond yn hoff iawn o 'In the Club'.
Hoff fiwsig: Bryn Fôn
Cas beth: Syrpreisys annisgwyl



### Prif Ddisgybl

Enw llawn:
Manon Fflur Thomas
Yn hanu o: Pontrug
Ysgol Gynradd: Bontnewydd
Hoff beth: Chwarae pêl rwyd a siopa
Hoff fwyd: Bwyta pob dim! Ond fy hoff beth erioed ydi 'Sticky Toffee Pudding'
Hoff Raglen Teledu: Great British Bake Off a Casualty
Hoff fiwsig: Gwrando ar bopeth
Cas beth: Nadroedd



### Dirprwy Prif Ddisgybll

Enw llawn: Math Emyr
Yn hanu o: Penisarwaun
Ysgol Gynradd: Llanrug
Hoff beth: Pêl droed (Manchester United)
Hoff fwyd: Pizza
Hoff raglen teledu: Breaking Bad / Top Gear
Hoff fiwsig: Coldplay
Cas beth: Suarez



### Dirprwy Brif Ddisgybl

Enw llawn:
Gruffydd Rowlands
Yn hanu o: Waunfawr
Ysgol Gynradd: Waunfawr
Hoff beth: Beicio Mynydd
Hoff fwyd: Lasagne
Hoff raglen deledu: Outnumbered/ Top Gear
Hoff fiwsig: Roc
Cas beth: Gwaith Cartref



### Dirprwy Prif Ddisgybll

Enw llawn:
Glesni Angharad Parry
Yn hanu o: Llanddeiniolen
Ysgol Gynradd: Bethel
Hoff beth: Chwarae piano
Hoff raglen deledu: Hollyoaks
Hoff fwyd: Sglodion
Hoff fiwsig: Ed Sheeran!!!
Cas beth: Pry Cop

# PRISCILLA YN GANT OED

Yn Ysgol Sul yr Eglwys fach yn Ninorwig gynt y clywais am y gŵr a'r wraig Acwila a Priscila y sonnir amdanynt yn llyfr yr Actau yn y Beibl. Roedd yr Acwila yn enw dieithr i'm clust ond gwyddwn fod yna Mrs Priscilla Williams yn byw hefo'i gŵr, Moss, ym mhen inclên (Wylfa oedd enw'r tŷ). Byddai'r ddau yn croesawu plant Dinorwig ar eu haelwyd yng nghanol pumdegau'r ganrif ddiwethaf i weld rhaglenni cowbois ar sianel ITV - sef Granada - un o'r aelwydydd cyntaf yn yr ardal hefo ITV.

Arhosodd y croeso hwnnw yn fy meddwl ers hynny ac wrth i mi, ar ddydd olaf Gorffennaf, barcio'r car gerllaw Bryn Deiniol ar Gallt y Foel, cerdded ychydig i dop yr allt a cherdded y lôn fach wastad heibio i Tan y Clogwyn islaw gwyddwn y byddai yr un croeso yn fy nisgwyl. Bydd Priscilla o fewn cwta deufis yn cyrraedd ei chanfed pen-blwydd. Gerllaw ei chartref gwelais Pat Sellers, o Graig Lwyd dros y ffordd i'r Wylfa, yn siarad â beiciwr cyn fy hebrwng at Priscilla - mae'r ddwy ohonynt yn nabod ei gilydd ers bron i hanner can mlynedd a Pat yn gymydog hynod driw a charedig.

Cynnes oedd cyfarchiad a chroeso Priscilla, roedd Alwyn y mab allan yn y caeau gerllaw a newydd adael oedd y ferch, Eurwen, sy'n byw yng Nghlwt y Bont yn Neiniolen islaw. Geiriau cyntaf Priscilla i mi oedd mai ar ddiwrnod Ffair Borth sef 24ain o Hydref 1914 y'i ganed.



## TRISTWCH YN NE CYMRU

Yn un o gymoedd glofaol De Cymru, ar aelwyd 18 Pefrog Terrace, Nant y Moel, y'i ganed fel ei brawd John Moi, ond ym Môn y ganed y ddwy chwaer hŷn, sef Betty a Laura. Deuai ei thad John Roberts Jones yn wreiddiol o Niwbwrch, Môn, a'i mam Priscilla Williams o deulu mawr ym Mrynrefail, lle roedd deg o blant sef chwech o hogia a phedair o genod. I'r môr yr aeth ei thad ond pan dderbyniodd lun Betty ei ferch gyda'i mam daeth ton fawr o hiraeth drosto ymhell o gartref a phenderfynodd yn syth ddod adref yn ôl i Fôn. Symudodd y teulu i dde Cymru lle cafodd ei thad ei gyflogi fel goruchwyliwr yng nglofa yr Ocean.

Diwedd trist ddaeth i ran ei thad a dwysbigwyd y teulu cyn i hynny ddigwydd pan ddaeth gwraig o sipsi i ddrws y tŷ a'i thad yn ei gyrru oddi yno yn ddiymdroi. Ond cyn iddi ymadael yn gyfan gwbl, rhybuddiodd y sipsi y byddai rhywbeth yn digwydd yn sydyn a'i bod yn gweld rhyw fynydd mawr a thŷ yno yn disgwyl y teulu.

Tridiau yn ddiweddarach bu damwain fawr yn y pwll glo pan ddisgynnodd y to i lawr a thad Priscilla druan oddi tano. Dygwyd ef gartref o'r pwll ac i barlwr yr aelwyd ac yno bu'n gorwedd o un ar ddeg y bore Gwener hwnnw hyd ei farw ar yr un amser bron y bore trannoeth (Sadwrn). Roedd yn 47 mlwydd oed, y flwyddyn oedd 1921 a gadawyd gweddw a phedwar o blant ar ei ôl. Fe'i claddwyd yn Nant y Moel ac oherwydd tlodi'r cyfnod ni fedrai neb o ogledd Cymru fynychu ei gynhebrwng.






## 'I ESGAIR YR WYDDFA A'I MOELNI BRITH'

Roedd taid Priscilla, sef Morris Williams, yn byw yn Clytir ym Mrynrefail a dyma ddod i aros gydag ef ac wrth bicio draw i Lanberis i weld Modryb Mary clywyd fod angen teulu i ofalu am dŷ Capel Hebron yng Ngwaun Cwm Brwynog ar lethrau'r Wyddfa. Roedd y tŷ Capel wedi ei drwsio a llwyddiannus fu cais y teulu am y denantiaeth. Roedd proffwydoliaeth y wraig honno o sipsi ar garreg y drws yn y de wedi dod yn wir! Dychwelwyd i'r de i nôl eu heiddo prin ac fe gludwyd y cyfan i orsaf Hebron gerllaw'r Tŷ Capel gan rheilffordd yr Wyddfa. Sylweddolai Priscilla, er mai ond 6 oed ydoedd, fod tlodi mawr ar yr aelwyd ac o'i chwmpas ond, serch hynny, setlodd y teulu yn dda yno. Swllt y flwyddyn oedd y rhent a'r prif ddyletswyddau oedd gofalu am y pregethwyr a wasanaethai yn y Capel a phrynu'r paraffin i oleuo lampau'r capel. Yn y gaeaf, cynhesid y Tŷ Capel gan wresogydd y capel a thrwy losgi mawn ac eithin y llethrau. Arferai'r plant ganu i deithwyr trên yr Wyddfa yng Ngorsaf Hebron a derbyn ychydig o arian a melysion ac arferiad arall y plant oedd gwerthu grug iddynt ac roedd yr arian prin a gawsent o ryw ychydig fudd. Gwaith andros o galed oedd i fam Priscilla fagu teulu ar arian prin yr iawndal o'r lofa, wrth gofio mai unwaith bob mis y deuai'r cardod hwnnw. Enghraifft o'r tlodi affwysol oedd ar un bore Nadolig ac oherwydd nad oedd yr iawndal misol o'r lofa yn y de wedi cyrraedd, y cinio Dolig oedd y frechdan margarin arferol. Ond daeth gwaredigaeth. Os oedd teulu'r Brithdir gerllaw eisiau cymorth mam Priscilla, gosodid cynfas wen ar goeden ddrain fel arwydd i ddod yno. Aeth Betty chwaer Priscilla yno a daeth oddi yno hefo parsel yn llawn o fwyd yr oedd mab y Brithdir wedi ei baratoi ac oherwydd ei garedigrwydd cafodd teulu'r Tŷ Capel Ddolig i'w gofio y flwyddyn honno.

Cofiai am wledd briodas yn un o westai Llanberis gyda'r arferiad o roi pres mewn padell ffrio a'u taflu allan i blant a oedd yn disgwyl yn eiddgar amdanynt. Un ohonynt oedd ei brawd John Moi ac er fod yr arian yn hynod boeth fe ddaliodd bisyn grôt gan fynd ag ef yn syth i'w fam dlawd.

Rhaid oedd cerdded i'r Ysgol yn Llanberis, yn wir rhedeg i lawr y llethrau yn y boreau fyddai Priscilla a'i brawd ond, yn naturiol, cymerai fwy o amser iddynt ddychwelyd ar ddiwedd bob pnawn. Yn aml iawn byddai'r ddau yn wlyb at eu crwyn yn cyrraedd yr ysgol a'r peth cyntaf a wnaethent oedd eistedd ger y tân i sychu nes bod stêm yn codi o'u dillad. Ni fu Betty, y plentyn hynaf, yn

yr ysgol gan y dioddefai yn enbyd o'r fogfa (asthma)a dim ond hanner blwyddyn y treuliodd Laura y chwaer arall yno hefyd.

Nid oedd Priscilla yn or-hoff o'r ysgol a doedd y ffaith mai Saesneg oedd yr iaith yno a'r sgwlyn yn un cas a brwnt ddim yn helpu'r achos chwaith.

Roedd John Moi wrth ei fodd yn mynd drws nesa i'r Capel i chwarae'r harmoniwm er na chawsai wers o gwbl ac roedd ganddo hefyd hoffter o bregethwrs a mynegai yn aml yr hoffai fod yn un ohonynt rhyw ddydd.

Mae straeon diddorol ac amrywiol cyfnod byw yn y Tŷ Capel mor fyw ym meddwl Priscilla. Dyma gyffwrdd rhai ohonynt.

Un Sul, wrth ddod allan o'r Capel, safai trempyn oedd wedi dod o gyfeiriad Waenfawr dros y mynydd a gwahoddwyd ef gan ei mam i'r Tŷ Capel am ychydig o fwyd. Llyncodd y cyfan yn awchus - yn wir buasai wedi bwyta bwyd y tŷ i gyd. Yn sydyn cynigiodd y trempyn ei hun i ddod yn dad i'r plant ac o glywed hyn dywedodd ei mam yn dra chwyrn wrtho, 'weli di'r drws, dos drwyddo rŵan!'

Un diwrnod derbyniodd un wraig ar y trên yn stesion Hebron dusw o'r grug gan Priscilla a rhoddodd y swm hael o hanner coron iddi. Mae'n amlwg fod Priscilla wedi creu argraff arni gan iddi, rai dyddiau wedyn, dderbyn ganddi barsel yn llawn o anghenion defnyddiol. Aeth blynyddoedd heibio a Priscilla erbyn hynny yn briod ac yn byw ar aelwyd Wylfa, pan ymddangosodd gŵr dieithr ar stepan y drws gan ddweud ei fod yn chwilio am Priscilla Jones ac yn awyddus i wybod lle roedd hi'n byw. Dychmygwch y llawenydd o wybod pwy oedd yn sefyll o'i flaen a rhuthrodd i nôl ei wraig, gan weiddi yn gynhyrfus arni, 'I've found her, Meg!'

Stori arall oedd yr olygfa anhygoel yn y cae tu allan i'r Tŷ Capel ar ôl i'w mam ollwng y ci bach oedd ganddynt allan a hynny yn blygeiniol a rhyw funud neu ddau wedyn rhedai'r ci am ei fywyd a mwnci ar ei ôl! Anelu am y tŷ wnaeth y ci a daeth y mwnci yno hefyd a brathu ei mam a phan ddaeth John Moi, y mab o'r chwarel, roedd ei fam mewn cyflwr bregus a dryslyd a rhaid oedd cael ffisig yn y feddygfa yn Llanberis i dod â hi ati ei hun. Merch o Lanberis a oedd yn forwyn i gapten llong yn Lerpwl, yn ôl y sôn oedd wedi dod â'r mwnci adre hefo hi ond dihangodd un diwrnod a daeth i Waun Cwm Brwynog. Daeth diwedd trist i'w ran pan saethwyd ef gan un o'r ffermwyr lleol gan ei fod yn creu hafoc i bawb ar y llethrau.

I'W BARHAU

Idris Thomas

## DINORWIG Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

**Profedigaethau** Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofio am ddau o blant yr ardal fu farw yn ystod y misoedd diwethaf. Rwy'n cyfeirio at Mr Albert Thomas, Buarth Newydd gynt a Mrs Heulwen Margaret Jones, 6 Maes Eilian gynt.

Ganwyd a magwyd Albert Thomas yn Buarth Newydd a chafodd ei addysg yn ysgol Dinorwig ac yna yn ysgol Deiniolen. Aeth i weithio i Hawarden hefo'r awyrennau. Bu yn byw yn Seland Newydd am rai blynyddoedd ac yna yn Wrecsam cyn symud i Fôn. Bu farw ar 24ain o Fehefin a gedy un ferch, Gillian, sydd yn cartrefu yn Llundain. Bu i Albert gartrefu yn Spring House, Rhosneigr ac am rhyw ychydig amser yn Bryn Ffynnon, Bangor, cyn iddo gael ei gymryd yn wael, pryd y bu iddo fynd i Ysbyty Gwynedd. Collodd y dydd tra yn yr ysbyty yn 92 mlwydd oed. Fel ardal yr ydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyr at y teulu yn eu galar a'u hiraeth.

Hefyd deallaf fod y Parch William John Lewis wedi colli ffrind annwyl iddo, y ddau wedi cydoesi â'i gilydd pan yn blant ac yn yr ysgol. Yn meddwl llawer amdanoch fel teulu a ffrindiau. Boed ichwi gael nerth oddi uchod yn yr oriau tywyll yma.

Hefyd Mrs Hweulwen Margaret Jones, 6 Maes Eilian gynt. Bu iddi hi adael yr ardal oherwydd amgylchiadau trist iawn. Bu farw ar 18 Medi yn 79 mlwydd oed ar ôl salwch creulon a bydd y cynhebrwng yn Henllan.

Wrth sgwennu hwn, nid yw'r angladd wedi bod felly fe fyddaf yn rhoi teyrnged i Heulwen y mis nesaf. 'Yn angof ni chaiff ffod.'

**Cofion** At Mrs Alice Myfanwy Griffith, Tan y Bwlch, gynt sydd yng nghartref Bryn Ffynnon, Bangor. Deall ei bod rhyw ychydig yn well.

**Llongyfarchiadau** i blant y pentref a lwyddodd mor dda yn yr arholiadau ac sydd, wedi hyn, wedi dechrau ar gyfnod newydd unwaith eto yn y colegau, ac yn gorfod sefyll ar eu traed eu hunain. Gobeithio y gallant ddal i newid bywyd a chymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd a mwynhau bywyd coleg, ac ar ddiwedd eu cwrs, faint bynnaf o flynyddoedd fydd hynny, y byddant yn gallu dweud iddynt fwynhau eu hamser yn y coleg ac y bydd ganddynt lawer o ffrindiau newydd.

Dymuniadau gorau i chwi a chofiwch y bydd yn rhaid gweithio a mwynhau. Pob lwc.

**Y Ganolfan** Mae yn bosib mai dyma y tro olaf y byddwch yn gweld yr enw 'Y Ganolfan' gan fod yr adran gynllunio wedi rhoi hawl i'r sawl sydd wedi prynu Y Ganolfan, wneud hostel/bunk house'. Faint mwy o'r pethau yma sydd am ddod i'r ardal? Tybed pam na fuasai Cyngor Gwynedd wedi ei werthu i un o'r rhai oedd eisiau ei brynu a chysylltiad ganddynt â'r ardal ac yn gwybod pa mor ddrwg a chul yw'r ffordd. Mae'r tro i'r ffordd fawr yn un o'r rhai peryclaf a welais i erioed. Pa effaith a gaiff 16 o geir yn yr iard, hynny yw os oes modd rhoi 16 o geir yno.

Gan fod y ffordd mor gul mae cryn dipyn o broblemau yn barod, ac yn sicr ddigon does gennym ddim ond mwy o broblemau i'w wynebu rhwng Dinorwig a Gallt y Foel. Yn sicr, fydd dim Cymraeg i'w glywed yma. Mae'r iaith bron wedi marw eisoes. Mae yn debyg mae dieithriaid uniaith Saesneg fydd bellach yn rheoli pentref bach Cymraeg a Chymreig yng nghanol Gwynedd.

**Haf o'r Llan** Dydd Gwener yr Eisteddfod yn Llanelli, urddwyd Haf, Buarthau, Llanrug, am y gwaith ardderchog y mae wedi ei wneud dros y blynyddoedd yn casglu rhai miloedd o bunnau dros wahanol elusennau cenedlaethol a lleol. Efallai fod llawer ohonoch yn gwybod am y gwaith da mae wedi ei wneud, ond sawl un ddim yn gwybod mwy amdani.

Un o blant Craigle, Dinorwig, yw Irfon, tad Haf, plant sydd yn cadw cysylltiad agos â'r ardal. Maent wedi bod yn ffyddlon iawn i'r ardal ac yn dal i fod felly. Mae arwisgo Haf â'r Wisg Las yn creu tipyn o hanes.

Mae Ann, mam Haf, yn fodryb i mam Bethan, gwraig Ifor ap Glyn, Caernarfon, ac roedd Iona, sef mam Ifor ap Glyn, yn dod o Ty'n y Pwll, Fachwen, Gwen oedd ei henw hi, sef nain i Ifor.

Pan oedd yr Eisteddfod yn union yr un lle yn Llanelli yn 2000 cafodd Ifor ei arwisgo hefo'r Wisg Wen. Felly fe welwch y cysylltiad rhwng Haf ac Ifor. Dipyn o hanes wedi ei greu a chysylltiad agos iawn ag ardal Dinorwig. Tybed pa bryd, neu tybed a welwn achlysur fel hyn eto?

Haf, llongyfarchiadau mawr iawn iti am dy waith clodwiw a dal ati. Yr wyt wedi dod â chlod mawr i'th deulu ac wedi rhoi pleser mawr i un o'r ychydig Gymry sydd ar ôl yn Ninorwig. Yr wyt wedi ein rhoi ar y map. Da iawn Haf, diolch i ti.

## NOSON LANSIO GWEFAN YR 'ECO'

Neuadd Goffa Bethel - Nos Iau, 16eg o fis Hydref am 7.00.

# Penblwydd Hapus

## Antur yn dathlu 30 mlynedd

Dathlodd Antur Waunfawr ei phen-blwydd mewn steil yn ddiweddar, gyda gwledd wedi'i greu'n gyfan gwbl o'u cynnyrch eu hunain, a choginiwyd gan y staff a'r gweithwyr.

Dangosodd y fenter gymdeithasol leol, sy'n cynnig cyflogaeth a hyfforddiant i oedolion ag anawsterau dysgu, ei sgiliau hunan-gynhaliaeth drwy ddarparu bwyd a diod i 50 o westeion yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr wythnos diwethaf. Roedd y Ganolfan hefyd yn dathlu ei 30ain penblwydd ac mi wnaeth hogiau'r Antur beintio'r neuadd ar gyfer y dathliad.

Cafodd y bwyd ei dyfu a'i baratoi ar brif safle'r Antur yn Waunfawr, ac fe wnaeth tîm o staff a gweithwyr yn y caffi ddyfeisio a choginio pryd tri chwrs, gydag ychydig o gymorth gan Ifan Tudur, rheolwr bwyty y Galeri, Caernarfon. Roedd yna win cartref hefyd, a chafodd y gwahoddiadau, cardiau lle a'r addurniadau eu creu gan y tîm. Darparwyd cerddoriaeth gan y pedwarawd William Mathias, a chafodd y gwesteion y pleser o weld sioe sleidiau yn darlunio 30 mlynedd o Antur.

Dywedodd y Brif Weithredwraig , Menna Jones: "Roedden ni eisiau gwneud rhywbeth gwirioneddol arbennig i ddathlu'r garreg filltir hon, ond roedd rhaid iddo fod yn rhywbeth oedd yn crynhoi ein hethos. Wnaeth bawb weithio mor galed i wneud y noson hon yn llwyddiant, ac roedd ein gwesteion yn rhyfeddu at y canlyniad terfynol. Roeddwn yn hynod o falch o'r staff a gweithwyr, a'r gefnogaeth a gawsom gan sefydliadau lleol eraill fel Galeri, Sinematig GISDA ac Antena. Roedd yn noson wych."

Llywydd y noson oedd Dafydd Iwan, sydd wedi bod yn gefnogwr o'r Antur ers iddi gael ei sefydlu, ac yn gyfaill agos i'w sylfaenydd, y diweddar Gwynn Davies. Yn fuan ar ôl y digwyddiad, cymerodd at ei gyfrif Twitter a dywedodd: "Noson i'w chofio, yn dathlu gweledigaeth Gwynn Davies yng nghwmni ei blant, Gwion a Sioned. Mae'r Antur wedi cyfoethogi bywydau cymaint o bobl."

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Beth Nicol ar (01286) 650 721 neu ar bethan@anturwaunfawr.org

Mae mwy o luniau o'r gwaith o baratoi a'r wledd ei hun i'w gweld ar ein tudalen Facebook.



*Dafydd Iwan yn derbyn potel o win 'Chateau Gwynn Bryn Eithin' gan y gweithwyr - Anwen, Ann, Cath a Gareth.*



*Llywydd y noson, Dafydd Iwan, gyda Gwion, mab y diweddar Gwynn Davies.*



*Y tim coginio, gydag Ifan Tudur o Galeri (yn y crys gwyn)*



*Ann a Tracy yn gweini.*

## NODIADAU YCHWANEGOL:

Menter gymdeithasol flaenllaw yw Antur Waunfawr, a sefydlwyd yn 1984, ac sy'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu yn eu cymuned eu hunain. Sefydlwyd yr Antur gan R. Gwynn Davies, aelod o gymuned Waunfawr, a oedd ei hun gyda mab sydd ag anawsterau dysgu. Roedd eisiau mwy i'w fab nag yr hyn oedd eisoes ar gael, ac felly gafodd y cysyniad o Antur ei eni. Erbyn hyn, mae Antur yn cyflogi bron 100 o staff ac yn cefnogi dros 60 o oedolion ag anawsterau dysgu.

**Clwb Bowlio** Cynhaliwyd y gystadleuaeth fewnol yn y Ganolfan ar Awst 28. Yr enillwyr oedd:

Tarian Goffa T.A. Thomas: 1. Mal Burns; 2. Joe Large.

Cwpan y Capten: 1. Emyr Evans; 2. Mal Burns.

Cwpan i'r Merched (rhoddedig gan Garej Pant Waun): 1. Valmai Williams; 2. Carol Williams.

Cwpan i Ddwbl (rhoddedig gan Garej Gwalia): 1. Lleufer Pritchard ac Emyr; 2. Ann Jones a Mal.

Mae'r Clwb yn cyfarfod bob pnawn Mawrth ac Iau o 2-4 o'r gloch a phob nos Fawrth ac Iau o 7-9 o'r gloch.

Croeso cynnes i aelodau newydd. Os am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Valmai Williams ar 650528.

**Sefydliad y Merched** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor ar Fedi 4ydd. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau yn ôl wedi'r gwyliau, gan longyfarch wyrion rhai o'r aelodau ar eu llwyddiant yn yr arholiadau. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd y Parch Marcus Robinson. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am y ffordd y cafodd ei ddewis i fod yn weinidog yn y gyfres deledu Snowdonia 1890. Eglurodd yn fanwl iawn sut yr oeddynt yn ffilmio y gwahanol olygfeydd ac, fel arfer, roedd yn ddoniol iawn wrth ddisgrifio rhai o'r sefyllfaoedd. Diolchodd Pat iddo am y sgwrs a hefyd am ddod ar fyr rybudd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 2il pryd y ceir arddangosiad coginio. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod ar brynhawn Iau cyntaf yn y mis yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 o'r gloch.

**Clwb 300** Y Ganolfan Enillwyr y Clwb am fis Gorffennaf oedd: £30: Mrs Rosalind Owen, Bryn Môr; £20: Mr J.H. Jones, Bryn Derwen; £10: Mrs Mererid Llwyd, Cae Rhos.

Enillwyr mis Awst oedd; £30: Mr G.S. Hughes, Pondas Eithin, Groeslon, Waunfawr; £20: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon; £10: Mr Norman Williams, Llidiart Wen, Waunfawr.

**Babanod Bach Newydd** Llongyfarchiadau i bedwar teulu yn y pentref ar enedigaeth un bach.

Ganwyd mab, Carn, i Dawn a Llion Iwan, Stad Llys y Waun. Brawd a ffrind bach i Eban ac ŵyr i Marion Iwan, Afallon.

Mab bach a anwyd i Rhian a Gethin, Golygfa, Stad Llys y Waun. Mae Aled wedi gwirioni gyda'i frawd newydd, Gethin.

Merch fach a anwyd i Susan ac Ottmane, 12 Dôl Erddi, Aaidah, chwaer fach i Lisa a Nathan, ac wyres i Mildred a Trefor Beech, Bronallt.

Daeth Menna ac Elfyn Griffith, Blaen y Nant, yn nnain a thaid i wyres fach newydd. Ganwyd merch, Lois Wyn, i Ceri a'u mab, Arwel, chwaer fach i Guto Wyn.

**Newid Lleoliad Gwaith** Dymunwn yn dda i Mererid, Llwyn Cae Rhos, sydd wedi newid lleoliad gwaith i Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, o Ysgol Glan y Môr Pwllheli. Mae'n gweithio dipyn nes adre rŵan.

**Newid Aelwyd** Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae teuluoedd wedi symud yma i'r Waun i fyw a theuluoedd wedi symud oddi yma. Dymunwn bob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

**Diolch** Dymuna Alan a Suzanne (Penygroes) ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion yn y Waun am yr anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Hefyd ar enedigaeth eu mab bach, Robert, ddechrau mis Ebrill.

**Dymuno Gwellhad** Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad i Elfed Jones, Bryn Menai, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Anfonwn yr un dymuniad da hefyd at Mr Ken Latham, Haul a Gwynt, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth.

Mae'n dda gweld Raymond Parry, Ffridd Felan, yn gwella ac yn troi allan wedi iddo fod ddim yn dda am gyfnod yn ystod yr haf. Anfonwn ein cofion hefyd at Pat yn Ffridd Felan, sydd wedi syrthio ac anafu ei phen.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mrs Lowri Dunn a Mr Arthur Ellis. Gorfu i'r ddau ohonynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Cydymdeimlo** Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Glenda Williams, Gors, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Kathleen Glyn, a oedd yn byw ym Mhorthaethwy.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys hefyd â Mrs Charlotte Evans, gweinyddes yn Syrjyri Liverpool House, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

## Meddygfa Waunfawr a Llanrug

**Clinic Ffliw**

**Waunfawr**

16 Medi: 1.00-2.30 (trwy apwyntiad)

22 Medi: 1.00-2.30 (trwy apwyntiad)

29 Medi: 1.00-2.30 (trwy apwyntiad)

**Llanrug**

30 Medi: 9.00-11.00 (trwy awyntiad)

**Festri Waunfawr**

14 Hydref: 9.00-11.30 (agored) a 1.00-3.30 (agored)

**Clinic Ffliw Plant**

Dydd Sadwrn, Hydref 25: 9.00-11.00
(Trwy wahoddiad llythyr)


Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

# Ysgol Waunfawr



*Cyngor Ysgol 2014-2015 Waunfawr*



*Dosbarth Meithrin 2014 Waunfawr*

**Plant Newydd a Staff** Rydym yn dymuno'n dda i'r 10 cyn ddisgyblion sydd wedi dechrau yn Ysgol uwchradd Brynrefail ac estynnwn groeso arbennig i blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da.

Estynnwn groeso cynnes i Mr Huw Llewelyn Jones a fydd yn dysgu yn nosbarth Yr Wyddfa, gobeithio y bydd yntau yn hapus iawn yn ein plith.

**Gwersi Nofio a Thennis**

Mae plant Blwyddyn 1, 2 a 6 wedi cychwyn ar eu gwersi nofio tra bod plant blwyddyn 5 yn cael gwersi gymnasteg a phlant blwyddyn 3 a 4 yn cael gwersi tenis yng Nghaernarfon.

**Etholiadau** Etholwyd y canlynol o flwyddyn 5 a 6 yn gapteiniaid ac yn is- gapteiniaid i'r timau gogyfer â'r flwyddyn i ddod.

Capteiniaid Eilio - Tomos Williams a Beca Elan

Is–gapteiniaid - Ethan Land, Shaun Lee a Lili Griffith

Capteiniaid Cwellyn - Siôn Gwyn a Beca Haf

Is–gapteiniaid - Celt Rowlands, Ela Alcock a Poppy Burns

Capteiniaid Gwyrfai - Jon Mill a Efa Medi

Is–gapteiniaid - Sam Woodward ac Alina Wroe

**Y Cyngor Ysgol**

Llongyfarchiadau i aelodau newydd y Cyngor Ysgol sef:

Ellie a Gryffudd Llwyd o ddosbarth Mynydd y Grug; Nel ac Iwan Ynyr o ddosbarth Cefn Du; Claire, Beca Haf, Iago a Siôn Gwyn o ddosbarth yr Wyddfa.

Ailgylchu dillad Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Hyfforddiant Beicio Derbyniodd blwyddyn 6 hyfforddiant sgiliau beicio yn ystod mis Medi sef tystysgrif Lefel 1 a 2.

Glanllyn Bydd 24 o blant blwyddyn 5 a 6 yn treulio tridiau yng Nglanllyn ddechrau mis Hydref gyda disgyblion Ysgol Bethel. Diolch i 'r athrawon ymlaen llaw am roi o'u hamser i oruchwylio'r plant.

Gwersi Pêl-Droed Mae gwersi pêl-droed Kick it wedi cychwyn bob nos Wener am gyfnod o chwe wythnos.

**Dyddiadau i'w cadw mewn cof:**

- Bydd y ffotograffydd yn tynnu lluniau unigol o'r plant fore ddydd Iau, Hydref y 9fed, am 8.30 y bore. Ni fydd clwb brecwast y diwrnod hwnnw.
- Cynhelir nosweithiau rhieni wythnos Hydref yr 20fed.

**Clwb ar ôl Ysgol Waunfawr**

Erbyn i'r rhifyn yma o'r Eco ddod o'r wasg bydd Clwb ar ôl Ysgol Waunfawr wedi bod ar agor ers mis. Mae holl waith caled y pwyllgor, dan arweiniad medrus a diflino Rhian, ein person cofrestredig, wedi talu ffordd. Bellach mae cryn bymtheg o blant y pentref yn elwa ar gael bod yn rhan o glwb sy'n eu casglu o ddrws yr ysgol ac yn mynd â nhw i Ganolfan Waunfawr i fwynhau a chymdeithasu tan y bydd eu rhieni'n eu casglu ar ôl gorffen diwrnod o waith. Penodwyd 4 aelod o staff brwdfrydig i weithio gyda'r plant ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iddynt am eu hymroddiad i'r fenter newydd.

Hoffai'r pwyllgor gymryd y cyfle i ddiolch yn gyhoeddus i Gyngor Gwynedd am grant dechreuol o £4,000 i'n helpu i sefydlu'r Clwb. Cawsom wybod yn ddiweddar ein bod hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais am grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol. Diolch yn fawr iddynt hwy am £5,000 i brynu adnoddau chwaraeon, crefft, technoleg a choginio. Cawsom gefnogaeth hefyd gan y Gyngor Cymuned ac rydym yn ddiolchgar iddynt hwythau. Cawsom gartref braf i'r Clwb gan Bwyllgor y Ganolfan a chefnogaeth o'r cychwyn gan staff Ysgol Waunfawr.

Mae lle yn y Clwb i ragor o blant. Os hoffech gofrestru plentyn yn y Clwb cysylltwch â ni ar Facebook neu drwy ffonio Rhian gyda'r nos ar 650466.

**Cyfeillion Ysgol Waunfawr**

Cynhelir Sioe Ffasiwn yn y Ganolfan am 7 o'r gloch nos Sadwrn, Hydref 4ydd. Mae'r tocynnau ar werth am £5 i ferched dros 18 oed yn unig drwy gysylltu â'r ysgol ar 650451. Bydd Bar a lluniaeth ysgafn ar y noson. Dewch draw am gyfle i brynu dillad siopau mawrion am brisiau gostyngol o hyd at 70% yn is na'r Stryd Fawr.




ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL

Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artisiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

POSH PAWS



TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen

(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

H. E. HUGHES


A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis




GWERTHWR GLO ac OLEW GWRES CANOLOG

(01286) 870444




Trefnwyd y cyfarfod cyntaf yn Hafod y Llan rhwng Lois Eifion (arweinydd y band), Meirion Jones (yr ysgrifennydd), a minnau efo Louise Wilson a John Hardy yno ar ran y tîm cynhyrchu. Mae John Hardy yn fwy enwog am gyfansoddi a chynhyrchu cerddoriaeth ar gyfer y gyfres dditectif lwyddianus Y Gwyll/ Hinterland, er mai Athro yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd yw wrth ei waith bob dydd. Bu'r trefnu a'r trafod yn ddyfal dros y misoedd - y gerddoriaeth, y teithio yno ac yn ôl, caniatad i golli gwaith ac ysgol, heb sôn am sut i gael pobl ac offerynnau o Hafod y Llan i Gwm Llan.

Wedi ymarfer a pharatoi daeth diwrnod y "dress rehearsal" fore Iau Medi 10fed. Roedd gennym gynrychiolaeth dda iawn ac roedd cynnwrf wrth droed y llwybr cyn i wyth o'r chwaraewyr gychwyn ar droed i fyny i Gwm Llan. Dylan Williams oedd yn cychwyn y sioe gyda ffanffer ganddo - ac yntau'n gwbl unig yng nghanol cae anferthol ar lawr y dyffryn! Roedd y brodyr Richard a Tomos Efans, y ddau'n ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail ac yn byw ym Methel, wedi derbyn yr her o chwarae ffanffer reit ar draws Cwm Llan . Yn ôl sawl un, roedd clywed y bechgyn yn chwarae yn gyrru ias i lawr eu cefnau! Da iawn hogia ddeuda i - cawsant beth help erbyn dydd Sadwrn a Sul gan Alaw Huws a Dylan Jones. Roedd yr hanner dwsin arall yn rhan o olygfa cwbl swreal - yn ymlwybro i lawr llethr ger chwarel Cwm Llan, gan chwarae galwad yn seiliedig ar emyn-dôn, a dynwared defaid yn cael eu casglu-yna cyfuno i chwarae'r dôn Llanfair cyn diflannu i'r mynydd!

Fodd bynnag, yr her mwyaf oedd cario'r offerynnau trwm i fyny'r mynydd - a gwnaed hynny ar geir neu fygis tebyg i rai golffio. Cafodd ambell aelod wibdaith digon cynhyrfus arno hefyd, ond cerdded fu'r hanes i'r mwyafrif. Erbyn pnawn Sadwrn, roedd gennym fand llawn ac roedd y profiad o chwarae tair o emynau mawr Cymru, gerllaw craig Gladstone, union 122 o flynyddoedd i'r diwrnod pan agorwyd Llwybr Watkin yn swyddogol gan y Prif Weinidog ar y pryd, yn brofiad anhygoel. Yn ôl John Dilwyn Williams o Archifdy Gwynedd, roedd band yno yn 1892 yn cyfeilio i gannoedd o bobl yn canu Bryn Calfaria, Llanfair a Rhyd-y-groes. A dyma ni, band Deiniolen yn efelychu eu camp. Profiad bythgofiadwy a theimladwy i ni fel chwaraewyr, i'r gynulleidfa ac i Tom Wicker, adolygwr o'r Telegraph a gyheoddodd y geiriau yma am ran y band yn y cynhyrchiad:

"There was one moment of pure, hair-prickling magic. As the mournful sounds of the Seindorf Arian Deiniolen Silver Band reverberated around the landscape surrounding the famous Gladstone Rock, pockmarked by piles of slate from long abandoned quarries, it was like hearing the mountains sing."

Mae Arwyn ac Elgan sy'n fugeiliad yn Hafod y Llan nôl yn bugeilio hyd y llethrau erbyn hyn a holl firi a chynnwrf y sioe wedi diflannu. Ond fe fydd y pedwar diwrnod ym Medi yn dwyn atgofion melys a bythgofiadwy i fand Deiniolen.

ON Ar y dydd Sadwrn roedd Ras Pedol Peris yn cael ei chynnal; un o rasys mynydd caletaf Prydain – ac roedd y tywydd yn anarferol o boeth! Roedd dau gystadleuydd yn ymlwybro'n flinedig o'r Lliwedd i gopa'r Wyddfa. Meddai un wrth y llall. "Ydi blinder yn chwarae triciau arna'i d'wed, yntau ydwi'n clywed band pres yn chwarae yn rhywle?" Ac fe arhosodd y ddau am ychydig i fwynhau nodau Band Deiniolen.

# Un funud fach ...

## Y DYDD YN BYRHAU

Mwyaf sydyn yr wythnos ddiwethaf fe sylwais fod y dydd wedi byrhau'n arw. Mae wedi bod mor braf a chynnes fel bod rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn wedi sylwi bod y mis wedi cerdded mor bell. Ac mae'n anodd wynebu'r gaeaf. Mi glywais ddeud wrth gwrs y bydd y tywydd braf yn byrhau'r gaeaf hwnnw. Ond rywsut hefyd, mae'n ei gwneud yn anos i'w wynebu gan fy mod eisiau i'r hindda bresennol barhau. Mae hi mor braf ar hyn o bryd, a does arnaf awydd o gwbl wynebu'r gaeaf a'i wynt a'i law, ei oerni a'i eira, a'r holl galedi a thrafferthion a all ddod gydag ef. O na fyddai'n haf, neu o leiaf yn hydref mwyn, o hyd. O na chawn aros yng nghlydwch a chynhesrwydd mis Medi braf heb boeni dim am galedi ac oerni gaeaf trwm.

Ond fe ddaw'r gaeaf a'i drafferthion hen a newydd. A'u hwynebu fydd raid, beth bynnag fyddant. Bydd gwneud hynny'n haws o'u hwynebu yn nerth ac yng nghwmni Duw. Gallwn gyflwyno pob dydd o'r newydd i'w ofal, a cheisio ei gymorth. Beth bynnag a ddaw, gallwn ei wynebu yn llaw ein Duw.

Mor hawdd, wrth gwrs, yw deud hynny heddiw cyn i'r gaeaf ddod. Mor rhwydd yw siarad am y pethau hyn, a doethinebu ynglŷn â ffydd ac ymddiriedaeth yn y Tad nefol, â'r gaeaf yn ymddangos mor bell. Ond ai'r un fydd fy nghân yn nhywyllwch y gaeaf sydd o'm blaen? Fyddaf fi mor barod bryd hynny i sôn am gymorth a nerth a chynhaliaeth barod y Brenin Mawr? Byddaf, gobeithio, trwy ei ras.

Yr hyn sy'n rhoi gobaith ac yn fy ngalluogi i ddisgwyl yn hyderus am y cymorth hwnnw yw'r ffaith ei fod ar gael heddiw. Y Duw sy'n ein cynnal yn hyfrydwch hydref a fydd hefyd yn ein cynnal yng ngafael gaeaf garw. Mae ei nerth yn ddigonol ar gyfer pob dydd, o'r dyddiau rhwyddaf i'r dyddiau anoddaf oll. Nid Duw ar gyfer y gaeaf yn unig mohono; ac nid ar gyfer y tywydd garw yn unig y mae ffydd, diolch am hynny. Pe byddai ffydd yn beth felly, byddai pawb ohonom mewn ansicrwydd mawr ar drothwy'r gaeaf. 'Gawn ni'n cynnal yn y ddrycin? 'Ydi ffydd yn ddigonol?' 'Oes modd ymddiried yn Nuw?' Pe byddai ffydd ar gyfer yr adegau anodd yn unig, pa sicrwydd fyddai gennym y byddai o werth?

Yr hyder sydd gennym yw ein bod yn profi nerth a chysur Duw bob dydd. Nid rhywbeth i'w dynnu o'r drôr pan fydd yn galed arnom ydi ffydd – na Duw o ran hynny – ond rhywbeth yr ydym yn ei arfer bob dydd. Ac am i ni brofi ffyddlondeb Duw yng nghanol heulwen haf, pan fo popeth o'n plaid, mae ffydd yn mynnu deud wrthym y byddwn yn ei brofi hefyd yn nhrymder gaeaf, hyd yn oed pan deimlwn fod popeth i'n herbyn.

JOHN PRITCHARD

DODREFN
PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
PRISIAU CYSTADLEUOL
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

## Her Gwynedd - Cyfle i ddweud eich dweud

Fel pob cyngor yng Nghymru, mae Gwynedd yn wynebu toriadau sylweddol yn y gyllid y mae'n ei dderbyn gan y llywodraeth i dalu am wasanaethau lleol. Ar yr un pryd, mae'r pwysau ar wasanaethau hanfodol megis gofalu am bobl hŷn yn codi'n aruthrol o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn niferoedd pobl hyn sydd yn byw yn y sir.

Mae'r ffactorau hyn yn cyflwyno Cyngor Gwynedd gyda'r sialens fwyaf yn ei hanes, ac mae'n galw ar bobl leol i ymuno mewn trafodaeth ledled y sir am y ffordd orau ymlaen. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd gan drigolion sawl cyfle i rannu eu barn gyda'r Cyngor am wasanaethau lleol a'r blaenoriaethu sydd yn bwysig iddyn nhw dros y blynyddoedd nesaf.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards:

'Er gwaetha'r ffaith fod arwyddion bod yr economi yn dechrau gwella mewn rhannau o Brydain, gwaethygu mae pethau i gynghorau Cymru wrth i effaith llawn dirwasgiad yr ychydig flynyddoedd diwethaf eu taro o ddifrif.

'Yma yng Ngwynedd, mae maint y sialens sydd o'm blaenau yn fwy na un wynebwyd o'r blaen. Y flwyddyn yma yn unig, mae maint y gyllid mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y llywodraeth i dalu am wasanaethau lleol wedi cael ei dorri £8.1 miliwn. Amcangyfrif bydd Gwynedd yn wynebu diffyg o tua £50 miliwn yn y gyllideb rhwng rŵan a 2017/18.

'Mae sialensiau ariannol a'r newid demograffeg sydd o'n blaenau yn frawychus, a gellir dim ond eu diwallu drwy ddod at ein gilydd i adnabod y gwasanaethau hynny mae pobl leol am i'r Cyngor eu blaenoriaethau yn y blynyddoedd i ddod, achos, yn syml ni allwn barhau fel yr ydym.

'Dyma pam mae'r Cyngor yn lansio trafodaeth ymgynghoriad cyhoeddus Her Gwynedd ar draws y sir. Mae ein neges i bobl Gwynedd yn glir - rydym eisiau clywed beth sydd gennych chi i'w ddweud fel ein bod yn gallu sicrhau fod pob punt sydd ar gael yn cael ei wario ar y gwasanaethau lleol sydd fwyaf pwysig i chi.'

Yn ystod mis Hydref a Thachwedd bydd fforymau cyhoeddus, lle bydd cyfle i bobl leol drafod y ffordd orau ymlaen gydag uwch Swyddogion o'r Cyngor a Chynghorwyr, yn cael eu cynnal yn y Bala, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli a Thywyn/ Gall trigolion gofrestru i fynychu drwy fynd i www.gwynedd.gov.uk/CofrestruHerGwynedd neu ffonio 01766 771000.

Gall trigolion hefyd ddweud eu dweud am wasanaethau lleol a'r blaenoriaethau sydd o bwys iddyn nhw drwy gwblhau Arolwg Her Gwynedd ar-lein ar www.gwynedd.gov.uk/HerGwynedd. Bydd copïau papur hefyd ar gael o lyfrgelloedd Gwynedd a Chanolfannau Cyswllt Cwsmer Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli.



## *O'r Cynghorau*

### *Cyngor Cymuned Llanrug*

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Orffennaf 2014:

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r maes parcio ger Sgwâr Llanrug. Roedd hi'n edrych yn debygol fod treth yn daladwy arno tra ei fod ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned. Cytunwyd anfon llythyr i Gyngor Gwynedd i holi os y byddent yn cymryd y maes parcio i'w perchnogaeth nhw fel y trafodwyd yn y cytundeb wreiddiol.

Dywedwyd bod y matiau o dan y cyfarpar chwarae yng nghae chwarae Glanmoelyn wedi cael eu difrodi a bod darn o fetel yn dod i fyny o'r tir yng nghanol y gwair. Roedd cwyn wedi'i wneud i swyddog o Gymdeithas Tai Gogledd Cymru ynglŷn â hyn ac am goeden sydd yn tyfu i'r ffordd yn 1 Corlan y Rhos, Llanrug a gordyfiant ger The Nook, Llanrug.

Mewn ymateb i gwynion am ddefaid ar dir y fynwent eto, penderfynwyd cael gair gyda'r ffermwr.

Adroddwyd bod Un Llais Cymru yn chwilio am erthyglau i'w cynnwys yn 'Y Llais'. Cytunwyd llunio erthygl am y gwaith sydd yn cael ei wneud gyda Ysgol Brynrefail i dacluso'r gymuned.

Dywedwyd nad oedd Cyngor Gwynedd yn hel gwastraff gwair ar ôl ei dorri o hyn allan. Mynegwyd pryder y byddai'r gymuned yn mynd yn flêr o ganlyniad i hyn.

Cytunwyd i ofyn i Gartrefi Cymunedol Gwynedd lanhau'r ffordd gefn tu ôl i Rhos Rug gan bod llawer o bridd a mwsogl yno.

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

- Estyniad un llawr ar ochr tŷ – Tŷ Felin, Pontrug
- Cais i gadw lolfa haul gefn – 5 Sŵn yr Efail, Llanrug
- Estyniad un llawr yng nghefn yr eiddo – 6 Bryn Moelyn, Llanrug
- Cais ôl-weithredol i gadw estyniad i faes carafannau teithiol – Plas Gwyn, Ffordd Llanberis, Llanrug

Cytunwyd cael pris i ail godi'r wal yn y fynwent a gofyn i swyddogion yr Eglwys annog pawb i gau giatiau'r fynwent yn dilyn gwasanaethau Sul.

Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda Swyddfa'r Heddlu, Caernarfon am ddiffyg presenoldeb yr Heddlu yn y gymuned ac am adroddiadau am gyffuriau yn cael eu gwerthu. Dywedodd fod gorsaf Caernarfon am helpu'r plismyn cymunedol gyda hyn ac eu bod yn awyddus iawn i adfer eu perthynas gyda'r gymuned hon. Y neges ganddo eto oedd i bawb basio 'mlaen eu cwynion a manylion am droseddau i'r heddlu.

Penderfynwyd cefnogi'r llythyr gan Feddygfa Llanberis a oedd yn datgan pryder am y modd mae meddygon teulu yn cael eu hariannu. Mae pryder am erydiad arall mewn gwasanaethau hanfodol yng nghefn gwlad Cymru a bod angen gwella'r gwasanaeth dim ei gwtogi.

Penderfynwyd hysbysebu am Gynghorydd newydd i ward Llanrug i lenwi'r Sedd wag ar y Cyngor.

Cytunodd y Cynghorydd Alan Pritchard gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Cwm y glo.







YSWIRIANT FUW

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd- destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion Medi

Gweddi Yn lle offrymu'r weddi arferol, ar gais y Cadeirydd, safodd aelodau'r Cyngor mewn cyfnod o dawelwch i gofio'r rhai o'r plwyf â aberthwyd yn ystod y Rhyfel mawr 1914-18. Wedyn darllenodd y Cadeirydd y gerdd "Rhyfel" – Hedd Wyn ac "Ymson Mam 1914/18" - Gerallt Lloyd Owen.

Hefyd:

O edrych o Ben Dinas ar ehangder Plwyf Llanddeiniolen
Nid oes i dymor oriau – nid defod
Yw tyfiant y cnydau,
Natur sy'n agor drysau,
Rho'r ddawn i'r ddaear ryddhau.
Richard Llwyd Jones.

Materion o'r cofnodion

Tan Gaer – o'r diwedd cadarnhad Gwynedd y gosodir arwydd 'dim cerbydau mawrion' yno. (gosodwyd yr arwydd ac un ger Gors Bach cyn y cyfarfod)

Ffordd Racca i'r Hen Felin, Clwt y Bont Ateb Gwynedd nad oes cyllid ar gyfer ei hail-wynebu ar hyn o bryd. Mr Meirion Williams yn awgrymu cyfarfod ar y safle – Idris Thomas, Elfed Williams a Caroline Roberts i'w gyfarfod.

Lôn Bwlch Uchaf, Deiniolen Gwynedd yn asesu'r sefyllfa.

Llwybr 31, cae chwarae Clwt y Bont Gwynedd wedi gofyn i'r perchennog tir ail-osod y ddôr sy'n amharu ar y llwybr.

Arosfa bws, Gallt y Foel Ateb Gwynedd nad oes lle yno i osod arosfa.

Canolfan Gymunedol Dinorwig Ateb Gwynedd y derbyniwyd sawl cynnig am yr adeilad ac yn ôl eu polisi a deddfwriaeth derbyniwyd y pris uchaf. Gwnaeth Idris Thomas sylw pellach bod hen ddigon o ddatblygiadau o'r fath yn yr ardal yn barod ac nad yw Gwynedd yn ystyried yr effaith ar yr Iaith Gymraeg yn eu trafodaethau cynllunio. Penderfynwyd gofyn eto i Gyngor Gwynedd a wnaed asesiad o'r iaith Gymraeg yn Ninorwig fel rhan o'r cynllun yma. Deallir bod hyn yn rhan o reolau cynllunio Cynulliad Cymru. Hefyd pwysleisio arnynt ystyried yr Iaith wrth drafod ceisiadau cynllunio'r dyfodol - llythyr eto i Gadeirydd Cynllunio Gwynedd.

Gohebiaethau a materion eraill

Bethel. Cyfeiriwyd at fynedfa wedi ei hagor i gae heb ganiatâd – llythyr i Adran Ffyrdd a Chynllunio, Gwynedd.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Coed Tan Dinas – gwelliannau i fynedfa a ffordd coedwigaeth ac adeiladu sied bren i gadw offer.

39, Rhydfadog, Deiniolen – estyniad unl lawr ar gefn yr eiddo.

1-4, Capel Brynrefail – newid amodau blaenorol er mwyn galluogi dŵr wyneb a dŵr draenio tir i arllwys i'r sustem garthffosiaeth cyhoeddus.

Minffordd, Penisa'rwaun – codi adeilad storio amaethyddol.

Coed Bolyn Lodge, Bethel – codi to pitsh uwchben y to fflat presennol a chodi porth blaen.

Penpwll Coch, Penisa'rwaun – gosod sustem trin carthffosiaeth ar gyfer 2 eiddo a ganiatawyd eisoes.

Cyfeiriwyd sawl gwaith yn ystod y cyfarfod at agwedd swyddogion cynllunio Cyngor Gwynedd, cynnwys hyn yn y llythyr i'r Cadeirydd:
ddim yn gwrando ar lais y gymuned
swyddogion yn arwain yr aelodau yn hytrach na fel arall.

Minffordd, Penisa'waun. Penderfynwyd dweud wrth Gwynedd bod cyfle yma i ledu'r ffordd gul cyn dechrau ail wneud y tŷ – llythyr i adran ffyrdd Gwynedd.

O gwmpas y bwrdd:

Llythyron i'r awdurdodau perthnasol ynglŷn â'r materion yma:

Siôn Jones – angen sicrhau gwasanaeth "Fibre Optic" ym Methel cyn gynted a bo modd – llythyr i BT

Gwilym Williams – angen torri coed o diroedd preifat o gwmpas pont felin, Clwt y Bont.

Carolyn Roberts – 1. Y ffyrdd ger y cae chwarae ac wrth y Caban, Brynrefail, angen eu hail wynebu ac mae twll yn y lôn ger y Caban;
2. Cysgodfa bws – amhosibl gweld y bws yn cyrraedd, angen panel polycarbonate yn lle aluminium;
3. Peryglon croesfan hen lôn newydd, angen goleuadau (pelican) a chyfyngder o 40mya. Mae llawer o bobl mewn oed a phlant yn croesi yno.

Hefin Williams – 1. Ffosydd wedi gordyfu, cynllun i'w anfon i Wynedd;
2. Clwb Ieuenctid ddim yn defnyddio'r Neuadd felly incwm y Neuadd wedi gostwng yn sylweddol. Oes modd trefnu "Bws Clwb" yno i hybu'r Clwb Ieuenctid?

Phylip Jones - 1. atgoffa Gwynedd o gyflwr y ffordd ger y gwaith dŵr;
2. Angen torri coed rhwng Tŷ'n Fawnog a Chapel Sardis.

Phyllis Ellis – angen 20mya heibio i'r ysgol ac ail baentio'r llinellau gwyn trwy'r pentref.

Rhian Evans – angen ail baentio'r llinellau gwyn ger Cae Glas, Rhiwlas.

Elfed Williams – 1.- goryrru trwy Dinorwig, bydd yn cadw golwg ar y sefyllfa yn ystod y nos;
2. – darn o fetel yn rhydd ar y gysgodfa dros y ffordd i'r Clwb Snwcer;
3. – angen palmant o Rydfadog at Gallt y Foel.

Geraint Elis – bwlch wedi ei agor heb ganiatâd ger Glan Gors i ffordd ystâd.


Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

SWYDDFA POST BETHEL
LLUN-SADWRN 5.30am-7.30pm
DYDD SUL 5.30am-3pm
Ffôn (01248) 670261
COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR
YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI,A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM
Sion Roberts 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

## Côr Meibion Caernarfon

Blwyddyn dda... a gwell i ddod!

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio ymunodd dwsin o aelodau newydd â Chôr Meibion Caernarfon. Bellach mae 60 ar y llyfrau. Ond wrth i'r côr ailymgynnull ar ddechrau tymor yr Hydref prysur, mae'r drws yn dal yn agored i aelodau newydd ym mhob llais.

Meddai'r Cadeirydd, Bryn Griffith, 'Dan arweiniad Delyth Humphreys a'n cyfeilydd Mona Meirion Richards, mae ysbryd da iawn yn y côr. Mae'n braf gweld cymaint o wynebau newydd – ifanc a hŷn - yn ein ymarferion dwy awr bob nos Fawrth yn Galeri, Caernarfon.

'Ond nid da lle gellir gwell. Os oes gennych lais derbyniol rhowch gynnig ar ganu yn ein rhengoedd a chael blas ar yr hwyl. Cewch bob cymorth i setlo a dysgu caneuon poblogaidd. Mae'r flwyddyn gyntaf yn rhad ac am ddim i aelodau newydd.'

Ychwanegodd Bryn, 'Bydd y blynyddoedd nesaf yn gyffrous i Gôr Meibion Caernarfon wrth inni nesáu at ein 50 mlwyddiant. Mae gennym drip ar y gweill i Iwerddon ddiwedd mis Hydref eleni ac rydym yn trafod ymweliad â'r Iseldiroedd flwyddyn nesaf.

'Daw'r rhan fwyaf o'n haelodau o dref Caernarfon a'r pentrefi cyfagos. Mae eraill yn teithio ymhellach o fannau fel Dwyfor ac Ynys Môn. Mae sawl aelod yn canu mewn corau eraill hefyd.

'Mae yma weithwyr a chyn weithwyr o bob math o swyddi. Yn ogystal â chanu, mae'n lle ardderchog i gael cyngor a help gyda phob dim dan haul!

'I ymaelodi, dewch i'n ymarfer nos Fawrth, siaradwch ag unrhyw aelod o'r côr, ffoniwch fi ar 01286 880291 neu gyrrwch neges drwy ein gwefan www.cormeibioncaernarfon.org Wnewch chi ddim difaru!"

## CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Helen Parry, Awelon, Ceunant, yn ei phrofedigaeth. Bu ei brawd yng ngyfraith, Alwyn Evans, Ffordd Bethel, Caernarfon, farw ar ôl gwaeledd byr. Roedd Mr Evans yn frodor o Dan y Coed a chofiwn at ei weddw, Mair Evans.

## CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai yn Ystafell Gymuned, Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 21ain Hydref am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd yr Athro Derec Llwyd Morgan a thestun ei ddarlith fydd 'Thomas Parry a thref Caernarfon'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.



## Cefnogwch ein hysbysebwyr




Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Blodau Racca
PENISARWAUN



Rhodd o'r Galon Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Alwyn a Sarah Jones
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269



# Ar ben arall i'r lein

Does dim bron wedi bod ar y cyfryngau ers wythnosau ond y cwestiwn a oes annibyniaeth neu ddim i fod yn yr Alban, ond yn y diwedd ewyllys trigolion y wlad oedd peidio â dewis newid. Yma yng Nghymru, fodd bynnag, mae annibyniaeth wedi bod yn y byd o reoli pysgodfeydd ers 1af Ebrill 2014 pan unwyd, dan adain Llywodraeth Cymru, ddyletswyddau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Gwasanaeth Goedwigaeth i un corff, sef Cyfoeth Naturiol Cymru

'Roedd cryn wrthwynebiad i'r uno 'ma ond 'roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei feddwl i fyny a doedd dim troi'n ôl ac, i raddau, 'roedd yn syniad da gyda phosibiliadau positif er lles amgylchedd ein gwlad. Penderfyniadau yn cael ei gwneud o dan un to, staff yn integreiddio gyda'i gilydd, mwy o fewnbwn gan y defnyddwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol ar sut mae eu gweledigaethau a'u syniadau i gael eu cysidro a'i bwydo i mewn i wneud gwasanaeth effeithiol a thrylwyr.

Rhwng Rhagfyr 1979 a 1af Ebrill 2013, drwy fy nghysylltiad gyda'r gymdeithas 'sgota roeddwn wedi gweithio i geisio gwella ein pysgodfeydd gyda phedwar gwahanol gorff. I ddechrau, 'roedd Bwrdd Afonydd Gwynedd yna daeth Dŵr Cymru, wedyn daeth Bwrdd Afonydd Cenedlaethol, ac yna Asiantaeth yr Amgylchedd. Nawr, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, dyma'r pumed corff imi orfod ymdrin â hwy. Be sydd wedi newid er 1979, wel yn anffodus dim llawer o ddim sydd yn ei gwneud yn bosib imi glodfori gwaith yr un o'r sefydliadau yma. Cyn belled yn ôl â 1979 mi oedd y pysgota yn eithaf da gyda nifer dda o eog a digonedd o sewin ar gael. Yn ogystal 'roedd y brithyll a'r torgoch yn niferus dros ben. Fel mae'r blynyddoedd wedi carlamu ymlaen mae safon ein dyfroedd wedi dirywio allan o phob rheswm, siomedig dros ben yw fod yr holl gyrff yma gyda'r cyfrifoldeb i ddatblygu, gwella a gwarchod y pysgodfeydd. Yn anffodus mae holl bysgotwyr Cymru, wel, 'sgotwrs y gogledd yn unfarn fod y cylch gwaith yma wedi ei anghofio'n llwyr gyda'r biwrocratiaeth sy'n amgylchynu ei bodolaeth. Mae pob awgrym o wella a datblygu gan bysgotwyr Cymru yn cael ei anwybyddu'n llwyr yn eu byd o newid swyddogaeth a chyfrifoldebau mewnol. Hynny yw, wrth gwrs, heblaw rhai afonydd y de fel y Taf ble mae safon y pysgota wedi gwella'n aruthrol! 'Sgwn i ydi hyn oherwydd y ffaith fod yr afon yn llifo i Fae Caerdydd?

Da chi, Lywodraeth Cymru, dowch yn effro i be sy'n mynd ymlaen a dangoswch tipyn o ffydd ynom ni, y rhan fwyaf o bysgotwyr Cymru, i gael y cyfrifoldeb o reoli ein pysgodfeydd ein hunan. Cofiwch, heb bwyso gan Gymdeithas Pysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni mi fuasai llygredd Llyn Padarn yma gyda ni o hyd. Oni fu'n rhaid mynd i'r Uchel Lys i gael trech ar



*Dewi ar Lyn Y Dywarchen*

Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru a'i cyfreithwyr a gweision sifil. A'r pechod mwyaf yn fy meddwl bach i, yw fod rhain i gyd i fod i weithio ar ein rhan nid yn ein herbyn, trist iawn ydi peth fel hyn.


Dyna ddigon ar y bocs sebon am y tro - o ia un peth arall, mawr yw'r disgwyl am ail adroddiad CNC ar broblemau Padarn, mae'r canlyniadau i fod allan yn ystod Tachwedd, ond os yw'r gwaith wedi bod yn drylwyr efallai cawn rhiw gip ar y canlyniadau yn ystod Hydref. Werth archebu'r Eco yn fuan i gael rhagflas!

Sut mae'r sgota wedi bod dros y mis, wel ar yr afonydd dim llawer o hwyl o gwbwl. Dyma ganlyniad cael tywydd heulog braf, anodd plesio rhai yn tydi. Mae rhyw ychydig sewin ac eog yn ceisio gwneud eu ffordd am Nant Peris, ond eu unig lwyddiant ydi cael eu potsio ar rannau isa'r Seiont yng Nghaernarfon. Mae'n edrych yn debyg fod rheolau a'r gyfraith wedi torri i lawr yn llwyr cyn belled ac mae plismona ein dyfroedd yn y cwestiwn. Ond mae rhyw lygedyn o obaith ar y Llyfni oherwydd mae nifer y sewin sydd ar rannau iasa'r afon y gorau imi weld ers llawer blwyddyn. Cyfeiriais y mis diwethaf efallai fod glanhau gwaith carthffos Penygroes yn gyfrifol am hyn ond, o bosib hefyd ac yn rhannol gyfrifol, fod y nifer yn amlwg oherwydd y sychder a'i bod yn amhosib iddynt nofio dros y criw sydd dan Bont y Cim. Pan ddaw y glaw mi fydd yn bosib asesu'r sefyllfa'n well.

Mae llynnoedd Cwellyn a Nantlle yn dal yn boblogaidd ond eto, heb os, Llyn y Dywarchen yw'r ffefryn ac yn denu pysgotwyr o phob rhan o'r wlad. Cofiwch mae'n eithriadol o braf yno hefyd os nad yw'r pysg yn brathu. 'Rwyf wedi cael nifer o luniau o frithyll yr enfys braf sydd wedi dod i'r rhwyd yn y dyddiau diwethaf - nifer o amgylch y tri phwys ma. O bosib un sy'n cael pleser mawr yno yw Dewi Jones o Fethel, mae yn medru gwenu weithiau - ond pan mae yn dal medda fo.

Dwi 'di bod wrthi ddigon am y tro, felly hwyl arni tra'n disgwyl am y glaw.

Huw Price Hughes



*Pont y Cim*

## Colin



*Priodas Colin. O'r chwith i'r dde Ken, Brian, Colin a Noel*

Trist iawn oedd cael galwad ffon gan Ken – "mae Col wedi marw! "Roedd Ken yn rhoi ei hanes i mi bob hyn a hyn a dan siars i ddweud wrtha i pan fydda fo adra'r tro nesa. Dwi ddim di gweld na siarad hefo Colin ers tua 46 mlynedd. Hogia Dol Elidir oedda ni ac yn byw dros y ffordd i'n gilydd. Fedra i ddim meddwl am Col heb weld pêl wrth ei draed. 'Ga ni gem' oedd y beth cynta ddeuda fo. Doeddwn i fawr o beldroediwr ac felly yn y gôl roeddwn gan amlaf yn cael fy mhledu gan daranau Col.

Cyw nyth o naw o blant i James ac Alice Jones 53 Dol Elidir oedd Colin. Bu farw yn 67 oed yn ysbyty Prifysgol Wallsgrave yn Coventry ac fe'i claddwyd ym mynwent Warwick.

Bu Colin a'i bump brawd i gyd yn chwarae i'r Darans Llanberis – record na welwn mohoni eto. Hen hogyn annwyl iawn, bob amser yn gwenu ac yn gwneud yn dda hefo pawb. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn efo'r teulu – mi fyddant yn ei golli yn fawr. Chwith iawn gen innau feddwl na welaf mo Colin eto. ( Gwyndaf Hughes)

### Cyfarfod Cyfeillion Plas Pengwaith

Daeth nifer dda i'r cyfarfod ar 17eg o Fedi, a thrafodwyd llawer o faterion yn ymwneud ac ymgyrchoedd codi arian yn ystod y misoedd nesaf.

Cafwyd gwybodaeth fod aelodau Parti Bythol Wyrdd wedi cerdded a chodi swm o arian anrhydeddus i'r Cyfeillion a hefyd fod Rhian wedi rhedeg yn yr Alban i'r un pwrpas.

Cytunwyd y byddai'r Cyfeillion yn cyfrannu £500 tuag at gostau rhedeg y bws cludo i'r preswylwyr sydd yn ymweld a'r Cartref yn fisol, a hefyd, edrych i'r posibilrwydd o wella y ddarpariaeth 'signal' teledu mewn rhai o'r ystafelloedd yn y Cartref.

Cyfeiriodd Sian, Rheolwraig y Cartref y byddai croeso i grwpiau, corau, unigolion neu bartion ddod i'r Cartref i ymarfer gan fod y preswylwyr yn mwynhau adloniant o'r fath.

Diolch am bob cefnogaeth. Dyddiad y cyfarfod nesaf 12 Tachwedd 2014.

Enillydd y Bêl Bonws am mis Awst oedd Miss Helen Richards.

**Siop Newydd** 'Dwi'n siŵr nad oes llawer ohonoch wedi sylwi fod siop arall wedi agor yn y pentref ers rhai wythnosau bellach. Mae'r Siop wedi ei lleoli ym Modurdy'r Wyddfa ac yn gwerthu eitemau ar gyfer y tŷ, megis paent, mops, brwshis, batteries, bulbs, screws, hoelion. Ewch yno i weld beth sydd ar gael! Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â nhw ar y rhif ffôn sydd yn hysbyseb Modurdy'r Wyddfa yn yr Eco yma.

**Cadw'n Heini** Mae cwrs newydd, i bob oedran a chyflwr, wedi cychwyn ar ddydd Mercher rhwng 1 a 2 y prynhawn yn y Ganolfan. Merched yn unig sy'n cael ymuno ar hyn o bryd. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Pat Jones(Cae Coch) ar 870589.

**Cwrs Coginio i Ddynion** Digwyddiadau newydd yw thema'r newyddion y tro yma. Mae cwrs newydd, Coginio i Ddynion sy'n gyfrifol am eu tŷ nhw, ar y gweill. Bwriedir cynnal y Cwrs, 6 wythnos, yn y Ganolfan ac mi fydd offer a nwyddau ar gael yno, am ddim, ac mi fydd canlyniad y Cwrs yn mynd adref gyda'r rhai sy'n mynychu! Am fwy o fanylion, cysylltwch â Pat Jones( Cae Coch) ar 870589.

**Côr Meibion Dyffryn Peris** Fel sy'n digwydd pob blwyddyn, mae misoedd Medi a Hydref yn rhai prysur i'r Côr. Erbyn i'r Eco ddod allan mi fydd y Côr wedi cynnal cyngherddau yn Eglwys y Drindod, Llandudno, Eglwys Cricieth ac yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Yn ystod Hydref byddant yn ymweld â Chlwb Rhosgadfan ar Hydref y 3ydd, Eglwys St John Llandudno ar Hydref y 7fed, yn ogystal ag ymuno â Chôr Dinas Bangor ar eu hymweliad a Dulyn, Hydref 10fed i'r 12fed.




Caffi Caban
ar agor
9 y bore tan 4 y pnawn- 7 diwrnod yr wythnos
Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad
Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig , Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffy a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH
Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)
Caban cyf



***Llongyfarchiadau** Elin Dafydd a'r basio arholiad gradd 1 corn.*



*Tîm dan 11 Deiniolen, tymor 2013/14.*

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen** Yn anffodus ni fydd Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch yn cael ei chynnal eleni. Y prif reswm am hyn yw bod niferoedd aelodau'r Pwyllgor wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd, ac mae pwysau trefnu'r Eisteddfod yn ormod i'r criw bach gweithgar.

Gobeithiwn yn arw y gallwn gynnal yr eisteddfod y flwyddyn nesaf, ac i'r perwyl hwnnw byddwn yn cynnal Cyfarfod Blynyddol yn Tŷ Elidir nos Fercher nesaf - yr 8fed o Hydref am 7 o'r gloch.

Os ydych am weld yr Eisteddfod Bentref yn parhau dangoswch eich cefnogaeth a dewch yn llu!!

**Diolch** Dymuna Alis Mair Jones, Rhiw Goch, Clwt y Bont, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion yn yr ardal am eu caredigrwydd, dymuniadau da ac anrhegion ar achlysur cael ei dewis fel Brenhines Gŵyl Deiniolen yn 2014. Diolch yn arbennig i'r Pwyllgor Gwisgoedd am yr holl waith paratoi ers mis Chwefror - y wisg, esgidiau, tiara, blodau, colur a gwallt, a'r cludiant crand! Mae Alis wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn!

**Llongyfarchiadau** i Matthew ac Alex ar enedigaeth merch fach, Seren.

**Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen** Er bod cryn fisoedd wedi pasio, cafwyd noson wobrwyo hynod lwyddiannus ar gyfer timau dan 9 ag 11 y pentref yn Ngwesty'r Fic, Llanberis, ar ddechrau'r haf. Llongyfarchiadau mawr i bawb a enillodd wobr ar y noson ac i bob un o'r chwaraewyr a fu'n rhan o'r ddau dîm dros y tymor. Diolch hefyd i'r holl deuluoedd a ffrindiau a gefnogodd ar y noson ac yn ystod y tymor. Diolch arbennig i Harri a Cai a fu'n cynorthwyo'r tîm dan 11 ar eu nosweithiau hyfforddi, roedd eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi yn fawr.

Yn anffodus, nid oes tîm dan 11 eleni oherwydd diffyg niferoedd, gan fod y mwyafrif o dîm y llynedd yn symud i'r oedran dan 12. Ond, yn drist iawn, nid oedd digon ychwaith i greu tîm dan 12 ac felly fe welwyd, am y tro gobeithio, griw o hogia sydd wedi chwarae efo'i gilydd ers iddyn nhw gychwyn efo'r tîm dan 7 yn methu chwarae dros eu pentref. Hoffai Glyn a Wayne ddiolch i bob un o'r hogiau am eu ymroddiad i'r tîm ac am yr holl hwyl dros y blynyddoedd. Dyna beth oedd yn braf am y criw yma, hwyl oedd y pêl-droed a dim byd rhy ddifrifol.

Pob lwc i'r tîm dan 9 ar gyfer y tymor newydd. Diolch i Tony, Luke a Kyle am eu gwaith caled gyda'r criw.

Hoffai'r Clwb ddiolch unwaith eto i griw Bingo Tŷ Elidir am eu cyfraniad hael diweddar, mae'n gymorth i gynnal y clwb.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen** Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Dylid anfon ceisiadau i Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, dyddiad cau: Hydref 31ain 2014.

**Diolch** Dymuna Meira, Kevin a Wendy ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl, Mrs Elizabeth (Betty) Roberts. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth yn yr angladd ac i Mr John Jones ar yr organ. Diolch hefyd i staff y Cartref ym Mhenisarwaun am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra oedd yn preswylio yno ac i E.W. Pritchard am eu gofal a'u trefniadau angladdol.

**Dymuna** Mona Parry, 13 Hafod Oleu, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau , anrhegion, blodau ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed mis Gorffennaf.

**Diolch** Dymuna Mrs Elisabeth Foster, 98 Pentre Helen, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau a chymdogion am y blodau, cardiau, arian ac anrhegion ac am yr ymweliadau a'r galwadau ffôn yn dilyn ei damwain ddiweddar ac yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. Diolch i bawb.

**Dymunwn ddiolch** ar ran Nicola, 33 Hafod Oleu, am y llu cardiau, arian a'r presanta a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed. Diolcho galon i bawb.

**Dymuna** Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen ddiolch yn fawr i ffrindiau, cymdogion a theulu am y cardiau, anrhegion a'r rhoddion at Gymorth Cristnogol ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch Yn dilyn llawdriniaeth ar ôl damwain dymuna Margaret Ellen, Hafan, 7 Porth Gogledd, ddiolch am yr holl garedigrwydd gan deulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch am y cardiau a'r anrhegion, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn. Diolch o galon i bawb.

**Dymuna** Daniel Ellis, 3 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gyfarchion a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur derbyn ei radd dosbarth cyntaf gyda Anrhydedd yn y Gyfraith o Brifysgol Caerdydd. Diolch o galon i bawb.

**Mynwent Eglwys Crist** Ein diolch unwaith eto i Mr Berwyn Jones am y gwaith o dorri'r gwair a thacluso Mynwent yr Eglwys. Diolch i garedigion yr ardal am y rhoddion i gynnal a thorri'r gwair ym Mynwent Llandinorwig. Derbyniwyd rhoddion gan: Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaun: £20; Mr Selwyn Griffith, 7 Talybont, Llanrug: £10; Mrs Edna Morgan, Caerdydd: £100; Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi: £20; Dawn Parry: £10; Dr William Munro a Miss H. Evans-Munro: £10; Brenda Hughes, 5 Arafa Don, Bethesda: £10; Mrs Rowena Williams, 7 Gerddi Menai, Caernarfon: £50; Mrs Helen Morris, 8 Min Menai, Bangor: £30; Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog; £20; Mr a Mrs Ken Gould, Birmingham: £10; Mr a Mrs Ronald Pleming, Llanrug: £20; Dennis, Eira, Ann a Julie: £40; Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron: £10; Ms Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf: £10.

Byddwn yn dra diolchgar am roddion i gynnal y Fynwent gan nad ydym yn derbyn unrhyw gymorth ariannol. Bydd Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, neu Mrs Gwen Griffith, Fron, yn dra diolchgar o dderbyn eich rhodd neu unrhyw aelod o Eglwys Crist.

## Chwaraeon

### RHEDEG MYNYDD

Mae llwyddiant rhedwyr lleol yn lledu i'r cyfandir. Yn ystod yr haf aeth Ed Harmer a Noel Craine, y ddau o Lanberis, i'r Eidal i gystadlu (bu bron i mi ddweud 'rhedeg') ym Marathon Kima, un o'r cystadlaethau caletaf ar fynydd yn Ewrop. Mae'r ras yn 52cilomedr gyda 8,400 metr o ddringo (Yr Wyddfa wyth o weithiau!) a chroesi saith o fylchau rhwng y mynyddoedd. Fel pe bai hynny ddim digon, roedd angen defnyddio rhaffau ac ysgolion mewn rhannau o'r cwrs yn ogystal a chroesi meysydd eira a mariannau. Gorffennodd Ed Harmer yn safle 92 (naw awr a hanner) a Noel yn safle 111 (ychydig dan ddeg awr). 143 yn unig gwblhaodd y cwrs, er fod dau gant wedi cychwyn.

Ddiwedd Awst cynhaliwyd rownd olaf Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain yn Llanberis, gyda Ras Maesgwm. Roedd bron i ddau gant yn cystadlu, a daeth Matthew Roberts, Llanberis yn chweched.

Ras Pedol Peris yw un o rasys mynydd caletaf Prydain, gan gychwyn yn Llanberis, dringo drwy'r chwarel i gopa'r Elidir, yna ar hyd y grib i'r Glyder cyn disgyn i Ben Gorffwysfa. Oddi yno, rhaid dringo'r Lliwedd a chroesi Bwlch y Saethau i gopa'r Wyddfa. Disgyn wedyn i Fwlch Cwm Brwynog cyn dringo Moel Cynghorion ac anelu'n ôl am Lanberis. Daeth Gareth Hughes, Penisa'rwaun yn drydydd, a Stel Farrar, Dinorwig y ferch gyntaf dros 50 oed. Yn Ras yr Hanner Pedol (oedd yn gorffen ym Mhen Gorffwysfa), Hugh O'Donnell. Llanberis oedd yn fuddugol, ac Ali Thomas, hefyd o Lanberis yn ferch gyntaf. Maggie Oliver, Dinorwig oedd y ferch gyntaf dros 60 oed.

Ddiwedd Hydref daw pen-llanw rasys mynydd Prydain yn ardal Bryniau Howgill, gogledd Lloegr gyda chystadleuaeth rasys cyfnewid. Bydd nifer o redwyr lleol yn cynrychioli Tim Eryri yn y gysatdleuaeth hon.

**Rhedeg Ffyrdd.**

Cwmni Ceir Cymru, Bethel oedd yn noddi 10 cilomedr Caernarfon, a oedd hefyd yn ymgorffori Pencampwriaeth Gogledd Cymru. Roedd dros 200 yn cystadlu. Daeth Dylan W.Jones (Deiniolen gynt) yn bumed, gan ennill y dosbarth dros 40 oed. Roedd Dewi Owen (Llanrug gynt) yn wythfed, ac yn drydydd dros 35 oed. Bu Dewi yn cystadlu hefyd yn Ras 10c Caerdydd. Daeth yn 58fed allan o dros 1500 o redwyr, a hynny yn ei amser gorau erioed am y pellter.

Teithiodd Rob Samuel i Derby i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth Brydeinig. Daeth yn bedwerydd mewn ras o dros 850 o redwyr.

**Traws gwlad.**

Arwydd sicr fod y gaeaf ar ein gwarthaf yw cychwyn y tymor rhedeg traws gwlad! Bydd ras gyntaf y tymor ar gaeau Treborth, Bangor ar y 4ydd o Hydref. Bythefnos yn ddiweddarach, bydd ail ras Pencampwriaeth Gogledd Cymru ar gaeau Coleg Dewi Sant, Llandudno.

## Gwobr Ffitrwydd Genedlaethol.

Llongyfarchiadau i staff Canolfan Ffitrwydd a Hamdden Canolfan Tenis Arfon yng Nghaernarfon. Am y drydedd flwyddyn, maent wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Ffitrwydd Genedlaethol 2014. Mae nifer helaeth o unigolion o'r fro yn defnyddio'r Ganolfan, ac yn uchel eu clod i'r staff ymroddgar yno.

# Camu Ymlaen



Yn ddios mae tyfiant rhyfeddol pêl-droed merched yn un o uchafbwyntiau y degawd diwethaf. Daeth y tim cenedlaethol o fewn trwch blewyn o gael lle yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd. Mae'r timau iau cenedlaethol yn ennill eu plwyf, hefyd. Dwy aelod o'r garfan dan 17 yw Lois Regan o Ddeiniolen a Cloe Hughes o Fethesda. Bu'r ddwy yn chwarae i dîm Bethel, sy'n chwarae yng Nghyngrair y Gogledd. Maent yn gobeithio bod yn y garfan i wynebu Latvia yn ystod y mis.

Ond, newid porfa sy'n wynebu'r ddwy. Maent wedi eu harwyddo gan dîm Academi Reading. Cynnigiwyd cytundeb dwy flynedd i'r ddwy, ac yna gobeithio estyniad i'r cytundeb broffesiynol. A hwythau bellach yn oed 'chweched dosbarth', byddant yn derbyn addysg ffurfiol draw yn Reading hefyd. Dymunwn yn dda i'r ddwy.

# Karate



Llongyfarchiadau i Jac Petch-Jones, Llanberis ar ei lwyddiant diweddar

# BREUDDWYDIO!




**I grwt y gêm oedd ffwtbol**
**a dwy gôt yn bŷst y gôl;**
**swn cic nes bod nos yn cau**
**a'r bêl yn drwm drybolau.**
**Hwyl iach a neb yn achwyn,**
**heb reff chwaraewn i'r brwyn.**
**Em oedd Ball a mi oedd Best,**
**hyd Gae Wern tanwyd gornest…**

Fel yna rydw i'n dechrau fy ngherdd Atgofion. Rwyn siwr ei fod yn olygfa gyfarwydd i nifer ohonnoch, er bod enwau'r arwyr yn amrywio. Roedd patrwm yn datblygu. Chwarae i dîm yr Ysgol ar fore Sadwrn. Yna i rai, brysio adref i chwarae i dîm y pentref yn y pnawn yn y Caernarfon and District. Dim son am gynghreiriau ieuenctid. Os oeddech chi'n ddigon da roeddech chi'n ddigon hen. Meithrin sgiliau drwy gicio hen bêl tennis yn erbyn y wal – yn aml o dan olau lamp stryd.
Ie, sentimental efallai. Ond cofiwn i gyd y wefr yn y cyfnod hynny os oedd rhywun o'r pentref yn cael chwarae i Bangor City neu cael treial i Wrecsam. Ac wrth gwrs cyflwyno cap cenedlaethol i'r rhai prin hynny yn noson wobrwyo yr Ysgol.
Pam yr edrych yn ôl. Dau reswm penodol.
Yn gyntaf y sylweddoli bellach mai tramorwyr sy'n hawlio'r llefydd yn nhimau pêl-droed Uwch Adran Lloegr – y timau mae y mwyafrif o'n ieuenctid yn gefnogi. Ar benwythnos 13/9 yn holl gemau'r uwch gynghrair dim ond 15 chwaraewr oedd wedi eu geni ym Mhrydain ( yn cynnwys Iwerddon). Daw rhyw wên gellweirus i'm hwyneb o gofio ambell i erthygl flaenorol a luniais i'r Eco. Cofiwn am y 'sgowts' lleol yn eu lifrau yn 'addo ga'i chdi i ….', a rhieni'r plant yn llyncu'r abwyd. Pan welson nhw'r gost i gael eu plentyn – un o nifer – i'r aml nosweithiau hyfforddi buan pallodd y wefr. Daeth ein timau lleol yn llawn o ex Liverpool, ex Tranmere trialists ac yn y blaen. Cofiaf gyfeirio at un o gyn chwaraewyr Llanrug, Wayne Phillips a chwaraeodd dros 400 gêm fel chwaraewr proffesiynol. Yr un modd Jiws a Eifion Jones. Daeth anaf i rwystro gyrfa y dawnus Malcom Allen a ddaeth i'r brig. ( Diolch am y rhaglen gignoeth, gonest arno.)
Onid, fel y dywedais flynyddoedd yn ôl, y dylsai ein chwaraewyr dawnus anelu at chwarae yng Nghyngrair Cymru. Dyma yw'r llwyfan ymddangos bellach, i rai fel Iolo Hughes. Mae rhai o chwaraewyr Bangor wedi chwarae mwy o gemau yn Ewrop na nifer o chwaraewyr Uwch Gynghrair Lloegr. ( Gyda llaw buasai rhai ohonnom wedi bod yn gartrefol ar gae difrifol Andorra.)
Yn ail oedd cael y llun uchod o Nathan Hughes o Fethel. 13 oed yw Nathan ac yn chwarae yng nghanol cae i dimau Bethel ac Ysgol Brynrefail. Am ddwy flynnedd roedd yn aelod o garfan Academi Porthmadog. O gofio dileit ei daid Huw, 'bachwyd' y bychan yn fuan i gefnogi ochor glas Dinas Manceinion. Y tymor diwethaf cafodd taid a Nathan fodd i fyw, a gwelir Nathan yn gwenu rhwng Tlws Pencampwyr yr Uwch Gynghrair a chwpan Capital One. Ie, mae gynnom ni i gyd freuddwydion.

**Mor hoff agor llyfr lloffion,**
**yno'n swmp pob llun yn son**
**am gêm, am freuddwyd am gawr;**
**adfer atgofion clodfawr.**

# Cofio

Mynd a'r ŵyr am dro. Anelu am cae swings Rachub, ac yna oedi ennyd. O'm blaen dan y gwair a'r chwyn roedd hen gae Llechid Celts. Anwastad, gwyro o un pen i'r llall. Y wal gerrig o'i gwmpas. Dyddiau fu.
Yna hel meddyliau. Prun oedd fy hoff stadiwm – ie, stadiwm i ni oedd cae Llechid hefyd!
Stadiwm y Mileniwm? Ffordd Landsdowne, Dulyn? Parc de Prince, Paris? Ffordd Farrar?
Dwy ddaeth i'r brig. Dwy hen stadiwm sydd wedi eu haddasu erbyn hyn. Yn gyntaf yr hen Barc yr Arfau, Caerdydd. Roeddwn yn selog drwy oes aur y 70'au cynnar ar y Teras Ddwyreiniol. Sefyll yn y wasgfa ryfeddol yn rhannu wisgi gyda'r Albanwyr a 'pocheen' gyda'r Gwyddelod. Doedd gan y Saeson ddim i rannu – na dathlu-yr adeg hynny. Awyrgylch ryfeddol, a Chymru'n un.
Yn ail Croke Park yn Nulyn, pencadlys y GAA sy'n rheoli gemau cynhenid yr Iwerddon yn benodol y Bêl-droed a'r Hurling. Bum yno yn gwylio y ddwy gamp Wyddelig, hefyd pêl-droed a rygbi tra roedd Stadiwm Aviva yn cymeryd siap.
Roedd yr hen stadiwm, fel Parc yr Arfau yn llawn cyffro. Hen eisteddleoedd yn drwch yn hanes eu gwlad. Teras agored Hill 16. Y 16 yn cyfeirio at 1916 a chyhoeddi'r proclamasiwn am Iwerddon Rydd o risiau'r Swyddfa Bost. Yn wir o'r rwbel a adawyd wedi difrodi'r Swyddfa Bost y gosodwyd sylfaen y teras.
Yna Eisteddle Hogan, ble y cyflwynir y tlws i siroedd llwyddianus yr All Ireland. Wedi ei enwi ar ôl Michael Hogan, un o chwaraewyr Tipperary a laddwyd gan y Black and Tans wedi i'r corfflu ddieflig yna danio yn ddi-drugaredd ar y chwaraewyr a'r dorf yn ystod gêm.
Yna'r Cwpan Sam Maguire. Wedi ei henwi ar ol un o gyfeillion Michael Collins. Maguire oedd arweinydd yr IRA yn Llundain yn ystod blynyddoedd cynnar y frwydr am annibyniaeth. I swydd Kerry yr aiff v Sam eleni wedi iddynt guro Donegal, y ffefrynau o flaen 83,000 o gefnogwyr.
Heddiw stadiwm ysblennydd yw Croke Park, gyda'r eisteddleoedd enfawr. Caiff mwy o sylw bellach gyda Sky yn dangos gemau rheolaidd y GAA. Synnwn i ddim weld y gemau – yn enwedig y bêl-droed – yn croesi môr Iwerddon ac yn dod yn boblogaidd i'w chwarae yn ogystal â'i gwylio.
Ie, daw sawl atgof am feysydd mawr a bach, yn chwaraewr a gwyliwr. Ond, yn y bon, fy hoff faes? Wel, ble arall ond Ty Newydd, y cae criced gorau yn y byd!

# Adolygiad Dechrau'r Tymor

Roeddwn yn cael tipyn o 'stic' o Lanber y tymor diwethaf gan fod y colofnau yn or-lwythog o gampau tîm Eithin Duon. Wel am newid hyd yn hyn. Llanrug fel cochion Manceinion wedi cael dechrau trychinebus i'w tymor. Yn amlwg nid yw Eithin Duon yn gaer gadarn fel y llynedd. Wedi 6 gêm dim ond pedwar pwynt o bedair gêm gyfartal â gipwyd yn y gynghrair. Chwalwyd gobeithion am dipyn o gelc yng Nghwpan Cymru drwy golli gartref i Goedpoeth. Dyddiau cynnar, ond nid oes fyth amser rhy fuan i ddechrau ennill gemau.

Boddhaol yw dechreuad criw Ffordd Padarn. Ennill tair a cholli tair yn y gynghrair. Unwaith eto eleni sgorio digon o goliau, ond ildio'n hael hefyd. Wedi curo Llanerchymedd gartref yna bydd rhaid teithio i Ddyffryn Nantlle yng Nghwpan Cymru. Dylsent fod yn hyderus. Bydd dipyn o sbarcs yn y gemau darbi eleni , dwi'n meddwl.

Mae'r tri clwb lleol arall, Waunfawr, ac ail dimau Llanberis a Llanrug yng Nghyngrair Gwynedd erbyn hyn. Bydd hon yn gynghrair gystadleuol iawn eleni.

Ail dim Llanrug sydd ar y brig wedi 9 gêm., gyda Llanberis a'r Waunfawr yng nghanol y tabl.Digon o gemau darbi eleni, ac yn y gyntaf Llanrug a orfu o 4-0 draw yn Llanberis. Gan na all ail dimau ennill dyrchafiad i'r Welsh Alliance, bydd yn ddiddorol gweld beth fydd y penderfyniad diwedd y tymor os bydd unrhyw un neu ddau o'r pedwar ail dîm sydd yng Nghyngrair Gwynedd yn gorffen yn y ddau safle uchaf. Gyda enillwyr cynghrair Môn eisiau symud i fyny, gallai Cynghrair Gwynedd fynd yn or-drwm o glybiau. I ble buasai tim o Arfon sy'n gorffen ar y gwaelod yn mynd? I Gynghrair Môn? Digon i gnoi cil arno. Beth fuasai pêl-droed heb daeru wedi'r cyfan?

# Chwaraeon

## Cronfa Gwion



Timau Llanberis a Llanrug gyda rhai o'r trefnwyr a chefnogwyr y gem a gynhaliwyd ar Ffordd Padarn i godi arian i Gronfa Gwion. Roedd y gefnogaeth ariannol yn anhygoel. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Llongyfarchiadau i'r ddau glwb, eu chwaraewyr a'u cefnogwyr am yr ymdrech.




## Triathlon Llanc y Tywod.

Yn y môr oddi ar draeth Llanddwyn, ar ffyrdd gorllewin Môn ac yng Nghoedwig Niwbwrch, cynhaliwyd Triathlon Llanc y Tywod mewn tywydd anarferol o heulog a chynnes. Daeth dros fil i gystadlu rhwng y driathlon llawn a'r 'sbrint'. Llongyfarchiadau i'r cwmni lleol 'Camu i'r Copa' am drefniadau hynod drylwyr.

Ac yr oedd llwyddiannau lleol hefyd. Yn y Sbrint, daeth Phil Lynes, Llanrug yn drydydd, Owain James, Deiniolen yn chweched, a'i frawd iau, Rhys James yn nawfed. Tri o'r fro yn y deg uchaf allan o bron i ddau gant o gystadleuwyr.

Yn y driathlon llawn, daeth Stel Farrar, Dinorwig yn drydedd yn y categori i ferched dros 50 oed.